



Canllaw ar y
Cynllun Gradd Sêr

**PARCIAU CARAFANAU
GWYLIAU
PARCIAU TEITHIO
PARCIAU GWERSYLLA**

Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad**
- 1.1 Dynodwyr**
- 1.2 Crynodeb o Egwyddorion Sicrhau Ansawdd Parciau Gwyliau, Parciau Teithio a Pharciau Gwersylla**
- 1.3 Yr Ymweliad Sicrhau Ansawdd**
- 1.4 Datganiad Mynediad**
- 1.5 Cynaliadwyedd**
- 1.6 Naws am Le**
- 1.7 Hygyrchedd**
 - 1.7.1 Y Dderbynfa a Gwasanaethau'r Dderbynfa
 - 1.7.2 Siopau
 - 1.7.3 Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd ac ati
 - 1.7.4 Adloniant, Chwaraeon a Hamdden
 - 1.7.5 Tiroedd a Chyfleusterau'r Parc
 - 1.7.6 Lleiniau ar gyfer Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau, Carafanau Teithio a Phebyll
 - 1.7.7 Toiledau a Chyfleusterau Ymolchi
- 1.8 Meini Prawf Gofynnol ar gyfer Parciau Gwyliau, Parciau Teithio a Pharciau Gwersylla**
- 1.9 Cynllun Ansawdd Gradd Sêr – Canllawiau i Weithredwyr**
- 2.0 Agweddau a Ystyrir yn yr Asesiad Ansawdd**
 - 2.1 Meysydd Asesu Cyffredinol**
 - 2.1.1 Glendid
 - 2.1.2 Y Dderbynfa
 - 2.1.3 Siopau
 - 2.1.4 Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd
 - 2.1.5 Golchdai, Ystafelloedd Sychu
 - 2.1.6 Toiledau Cyhoeddus, Ystafelloedd Ymolchi/Cawod Hygyrch, Cyfleusterau Newid i'r Teulu a Babanod
 - 2.1.7 Adloniant a Hamdden
 - 2.1.8 Cegin a Man Bwyta i Wersyllwyr, Byrddau Picnic, Barbeciws, Tiroedd y Parc
 - 2.1.9 Ardaloedd Sbwriel ac Ailgylchu
 - 2.1.10 Toiledau a Chawodydd (Dynion)
Toiledau a Chawodydd (Merched)
 - 2.1.11 Cyfleusterau Teithio
 - 2.1.12 Y Tu Allan/Ffryntiad
 - 2.1.13 Addurn a Lloriau
 - 2.1.14 Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal

- 2.1.15 Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru
- 2.1.16 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 2.2 Y Dderbynfa a Gwasanaethau'r Dderbynfa**
 - 2.2.1 Y Tu Allan/Ffryntiad
 - 2.2.2 Addurn a Lloriau
 - 2.2.3 Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal
 - 2.2.4 Goleuadau
 - 2.2.5 Gofod, Cysur a Hwylustod
 - 2.2.6 Gwybodaeth i Dwristiaid
 - 2.2.7 Gweithdrefnau Croesawu a Chyrraedd a Gwybodaeth i Westeion ar Adeg Cyrraedd
- 2.3 Cyfleusterau'r Parc: Siopau**
 - 2.3.1 Y Tu Allan/Ffryntiad
 - 2.3.2 Addurn a Lloriau
 - 2.3.3 Darnau Gosod a Gosodiadau
 - 2.3.4 Goleuadau
 - 2.3.5 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 2.4 Cyfleusterau'r Parc: Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd**
 - 2.4.1 Y Tu Allan/Ffryntiad
 - 2.4.2 Addurn a Lloriau
 - 2.4.3 Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal
 - 2.4.4 Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru
 - 2.4.5 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 2.5 Cyfleusterau'r Parc: Golchdai ac Ystafelloedd Sychu**
 - 2.5.1 Y Tu Allan/Ffryntiad
 - 2.5.2 Addurn a Lloriau
 - 2.5.3 Goleuadau a Dulliau Awyru
 - 2.5.4 Darnau Gosod a Gosodiadau
 - 2.5.5 Cyfarpar
 - 2.5.6 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 2.6 Adloniant, Chwaraeon a Hamdden**
 - 2.6.1 Y Tu Allan/Ffryntiad
 - 2.6.2 Cyfleusterau (Dan Do)
 - 2.6.3 Cyfarpar (Dan Do)
 - 2.6.4 Cynllun a Hwylustod (Dan Do)
 - 2.6.5 Cyfleusterau (Awyrr Agored)
 - 2.6.6 Cyfarpar (Awyrr Agored)
 - 2.6.7 Cynllun a Hwylustod (Awyrr Agored)
- 2.7 Tiroedd a Chyfleusterau'r Parc**
 - 2.7.1 Goleuadau
 - 2.7.2 Arwyddion
 - 2.7.3 Mannau Ymgynnull Tân
 - 2.7.4 Arwynebau Ffyrdd a Llwybrau
 - 2.7.5 Gwaredu Sbwriel a Darpariaeth Ailgylchu
 - 2.7.6 Byrddau Picnic, Seddi yn yr Awyrr Agored, Barbeciws, Ceginau a Mannau Bwyta i Wersyllwyr
 - 2.7.7 Tirlunio
 - 2.7.8 Gwaith Cynnal a Chadw ar Adeiladau Atodol neu Adeiladau Nas Defnyddir
 - 2.7.9 Cynnal a Chadw'r Tiroedd
 - 2.7.10 Cynllun y Parc
 - 2.7.11 Mannau Parcio a Chyfleusterau Cyrraedd yn Hwyr
- 2.8 Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau a Charafanau Teithio Tymhorol**
 - 2.8.1 Y Tu Allan
 - 2.8.2 Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt
 - 2.8.3 Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw
 - 2.8.4 Cysylltiadau â'r Lleiniau a Chysylltiadau â Gwasanaethau
- 2.9 Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau ar Osod – Agweddau Allanol**
 - 2.9.1 Y Tu Allan
 - 2.9.2 Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt
 - 2.9.3 Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw
 - 2.9.4 Cysylltiadau â'r Lleiniau a Chysylltiadau â Gwasanaethau
- 2.10 Toiledau a Chyfleusterau Ymolchi**
 - 2.10.1 Y Tu Allan/Ffryntiad
 - 2.10.2 Addurno
 - 2.10.3 Lloriau
 - 2.10.4 Goleuadau
 - 2.10.5 Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru
 - 2.10.6 Darnau Gosod, Gosodiadau ac Offer Ymolchfa (Toiledau a Basnau)
 - 2.10.7 Darnau Gosod, Gosodiadau ac Offer Ymolchfa (Cawodydd)
 - 2.10.8 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 2.11 Lleiniau a Chyfleusterau Teithio, Cartrefi Modur a Gwersylla**
 - 2.10.1 Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt
 - 2.10.2 Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw
 - 2.10.3 Rhyng-gysylltiadau Trydanol
 - 2.10.4 Pwyntiau Dŵr a Gwaredu Dŵr Llwyd
 - 2.10.5 Pwyntiau Gwaredu Gwastraff Cemegol
 - 2.10.6 Pwyntiau Gwaredu Gwastraff Cerbydau Modur (MVWDP)
 - 2.10.7 Cyfleusterau Golchi Llestri
- 3.0 Cod Ymddygiad**
- 4.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan**
- 5.0 Newid Perchenogaeth**
- 6.0 Arwyddion**
- 7.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd**

1.0 Cyflwyniad

Ystyrir mai cael cynnyrch o ansawdd yng Nghymru yw'r ffactor pwysicaf er mwyn i Gymru allu cynnig profiad o'r radd flaenaf i'w hymwelwyr a gallu cystadlu yn y farchnad fyd-eang. Mae Croeso Cymru yn cydnabod hyn ac yn ymrwymedig i weithio gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau y bydd ein llety, ni waeth pa fath o lety ydyw, yn parhau i fod yn gystadleuol.

Bydd gradd sêr yn bwysig i ddefnyddwyr wrth iddynt ddewis rhywle i aros ynddo neu ymweld ag ef a bydd ystod Croeso Cymru o Gynlluniau Gradd Sêr yn rhoi tawelwch meddwl i unrhyw ddefnyddiwr y bydd unrhyw eiddo sy'n arddangos argymhelliad swyddogol gan Croeso Cymru wedi cael ymweliad i fwrw golwg dros y lle cyn i chi gyrraedd.

Mae codi safonau yn hollbwysig i ddatblygiad twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, felly byddem yn eich annog i weithio gyda Croeso Cymru drwy ba un bynnag o'n cynlluniau gradd sêr sydd fwyaf addas i'r math o eiddo sydd gennych.

Caiff parciau eu graddio o 1 i 5 seren. Po fwyaf o Sêr a roddir, y gorau yw'r ansawdd. Rhoddir y radd i barc yn seiliedig ar "fandiau" canrannol. Pennir y ganran ei chyfrifo drwy gymharu cyfanswm y marciau a sgoriwyd â chyfanswm y marciau posibl. Ni roddir gradd i barciau sy'n cael llai na 34% o gyfanswm y marciau posibl am unrhyw gyfleusterau (e.e. siopau, clybiau, golchdai ac ati). Ni all y radd gyffredinol a ddyfernir fod yn fwy nag un radd yn uwch na'r radd isaf ar gyfer unrhyw adran. Rhaid i'r safon glendid fod o'r un safon o leiaf â'r radd gyffredinol.

Y graddau yw:

1 Seren – Ansawdd derbyniol

Rhaid cael o leiaf 34% ym mhob adran raddio a rhaid bodloni'r meini prawf gofynnol yn llawn. Rhaid i'r safon glendid fod o'r un safon o leiaf â'r dyfarniad cyffredinol.

2 Seren – Ansawdd eithaf da

Rhaid cael o leiaf 1 Seren ym mhob adran. Rhaid i'r safon glendid fod o'r un safon o leiaf â'r dyfarniad cyffredinol.

3 Seren – Ansawdd da

Rhaid cael o leiaf 2 Seren ym mhob adran. Rhaid i'r safon glendid fod o'r un safon o leiaf â'r dyfarniad cyffredinol.

4 Seren – Ansawdd da iawn

Rhaid cael o leiaf 3 Seren ym mhob adran. Rhaid i'r safon glendid fod o'r un safon o leiaf â'r dyfarniad cyffredinol.

5 Seren – Ansawdd ardderchog

Rhaid cael o leiaf 4 Seren ym mhob adran.

Rhaid i'r safon glendid fod o'r un safon o leiaf â'r dyfarniad cyffredinol.

Gradd Sêr Cymwysyddion

★	Sgôr o 34% o leiaf ym mhob maes
34 – 47%	Isafswm sgôr glendid 40%
★★	Sgôr o 40% o leiaf ym mhob maes
48 – 59%	Isafswm sgôr glendid 48%
★★★	Sgôr o 54% o leiaf ym mhob maes
60 – 74%	Isafswm sgôr glendid 64%
★★★★	Sgôr o 67% o leiaf ym mhob maes
75 – 86%	Isafswm sgôr glendid 76%
★★★★★	Sgôr o 80% o leiaf ym mhob maes
87%+	Isafswm sgôr glendid 88%

1.1 Dynodwyr

Yn ogystal â Gradd Sêr, bydd y Parc hefyd yn cael Dynodwr sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r math o barc y gall ymwelwyr ei ddisgwyl, sef:

- "Parc Gwyliau" ar gyfer parciau y mae eu prif fusnes yn ymwneud â gosod carafanau gwyliau, er y gallant gynnig rhai lleiniau i garafanau teithio;
- "Parc Teithio" ar gyfer y parciau hynny sydd â lleiniau i garafanau teithio, cartrefi modur a phebyll yn unig;
- "Parc Gwersylla" ar gyfer y rhai sy'n darparu lleiniau i bebyll yn unig.

Pan fydd yr un faint o leiniau ar gyfer carafanau sefydlog a charafanau teithio, er enghraifft, gellir rhoi "Parc Gwyliau a Theithio". *Pan ddangosir Gradd Sêr Croeso Cymru rhaid dangos y Dynodwr swyddogol gyda hi bob tro.*

1.2 Crynodeb o Egwyddorion Sicrhau Ansawdd Parciau Gwyliau, Parciau Teithio a Pharciau Gwersylla

1. Cydnabyddir natur a marchnad benodol y diwydiant wrth ystyried parciau.
2. Seilir y cynllun ar yr egwyddor y gall parc o unrhyw faint neu unrhyw fath, hyd yn oed y lleiaf, gael gradd uchel, os yw cyflwr ac ansawdd yr hyn a ddarperir yn rhagorol.
3. Meincnodir pob asesiad yn erbyn safonau a bennir gan y diwydiant ac sydd eisoes yn bodoli mewn Aelod-parciau.
4. Ystyrir pob agwedd ar yr asesiad ansawdd yn wrthrychol ar sail ansawdd cynhenid

a chyflwr cyfredol yn unig. Mae'r marc a ddyfernir yn gyfuniad o'r ddau.

5. Ni chaiff 'steil', 'ffasiwn' na 'chwaeth bersonol' eu hystyried, o dan unrhyw amgylchiadau, wrth ddyfarnu unrhyw farciau.
6. Mewn Parciau lle mae amrywiaeth mawr rhwng cyfleusterau gwahanol, bydd y marc a ddyfernir yn gynrychioliadol o brofiad cyffredinol y gwestai cyffredin.
7. Bwriedir i'r Dangosyddion Ansawdd fod yn enghreifftiau cyffredin a dealladwy. **Nid ydynt yn safonau diffiniol ac ni ddylid eu hystyried yn rhai caethiwus nac yn rhai sy'n cyfyngu ar amrywiaeth yr hyn y gellir ei gynnig.**
8. Bydd y Dyfarniad Sicrhau Ansawdd yn cynnwys y disgrifiad priodol, gan nodi safonau sicrwydd cyfleusterau gofynnol, ynghyd â safon Ansawdd a gynrychiolir gan raddfa o Un i Bum Seren.

1.3 Yr Ymweliad Sicrhau Ansawdd

Bydd Cynghorwyr Ansawdd Croeso Cymru yn ymweld â pharciau sy'n cymryd rhan o fis Mawrth/Ebrill tan fis Medi/Hydref yn ystod y flwyddyn asesu berthnasol. Gellir trefnu ymweliad ar gais y tu allan i'r cyfnod hwn os bydd angen.

Fel arfer, bydd yr ymweliadau ar ffurf ymweliad dydd dirybudd. Bydd y Cynghorydd Ansawdd yn cyflwyno ei hun i'r perchennog/rheolwr, drwy staff y dderbynfa os nad ydych ar gael ar y pryd, ac yn gofyn am ychydig o'ch amser i gwblhau'r asesiad ansawdd a thrafod ei ymweliad gyda chi. Er mwyn cwblhau'r asesiad bydd angen i'r Cynghorydd Ansawdd weld cyfleusterau ym mhob rhan o'r Parc gan gynnwys, os oes gennych rai, ddetholiad o'ch carafanau sy'n gartrefi gwyliau ar osod (ar gyfer y Safonau Gofynnol).

Byddai'n anarferol i Gynghorydd Ansawdd allu rhoi canlyniad pendant ar adeg yr ymweliad i fusnes sy'n cymryd rhan am y tro cyntaf. Bydd angen i'r adroddiad gael ei gwblhau a'i ystyried yn ofalus gan y Cynghorydd Ansawdd a'i adolygu wedyn gan Uwch Gynghorydd Ansawdd cyn cadarnhau'r dyfarniad. Bydd y broses hon yn cymryd tua phedair wythnos fel arfer, er y gall gymryd mwy o amser weithiau.

Prif bwrpas yr ymweliad, wrth gwrs, yw cwblhau'r asesiad ansawdd. Fodd bynnag, mae Cynghorwyr Ansawdd Croeso Cymru hefyd yn gallu cynnig cymorth, cyngor a gwybodaeth am ystod eang o bynciau, os gofynnir am hynny. Gall hyn, er enghraifft, ymwneud

â gwybodaeth am gyfleoedd marchnata, cyfleoedd hyfforddi, datblygiadau arfaethedig o fewn yr eiddo neu sgwrs dda am yr hyn sy'n digwydd yn y diwydiant, ble mae'r cyfleoedd neu'r bygythiadau a phwy sy'n gwneud beth yn eu cylch. Nid yw'r agwedd Gynghorol hon ar yr ymweliad yn orfodol er ei bod yn gyfle unigryw i gyfnewid syniadau a gwybodaeth ac, fel y cyfryw, fe'i gwerthfawrogir yn fawr gan y rheini sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Os bydd Cynghorydd Ansawdd yn tynnu eich sylw at enghreifftiau o arfer da – boed mewn llyfrgell ffotograffau neu drwy sôn am enghreifftiau o barciau cyfagos eraill, bwriedir i'r rhain fod yn awgrymiadau defnyddiol y byddwch, o bosibl, yn penderfynu eu mabwysiadu. Mae'n werth nodi fodd bynnag mai dim ond enghreifftiau yw'r rhain lle mae rhyw ddarpariaeth neu'i gilydd wedi cael sgôr uchel, ac y gall enghreifftiau eraill sgorio yr un mor dda. Weithiau gall ymwybyddiaeth o enghreifftiau da ddylanwadu ar eich syniadau chi eich hun.

1.4 Datganiad Mynediad

Beth yw Datganiad Mynediad? Cyfrif clir, cywir a gonest yw hwn o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y gall ymwelwyr anabl eu disgwyl NAWR, gan eu galluogi i ddewis y lleoliad sydd fwyaf addas iddynt.

NODER: Un o amodau cael eich graddio gan Croeso Cymru yw bod yn rhaid llunio datganiad mynediad a nodi pa mor hygyrch yw eich busnes. Dylai gael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau dros amser, a dylai fod ar gael i ddarpar westeion. Mae'n syniad da rhoi'r Datganiad Mynediad ar-lein fel arfer.

Am gyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Mynediad, ewch i: www.visitbritain.org/business-advice/make-your-business-accessible/create-accessibility-guide
<http://www.visitengland.org/access>

1.5 Cynaliadwyedd

Mae mabwysiadu dulliau rheoli cynaliadwy yn gwneud synnwyr busnes da. Gall helpu eich amgylchedd a'ch cymuned leol yn ogystal â gwella ansawdd y gwasanaeth i'ch gwesteion. Mae Croeso Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu egwyddorion rheoli cynaliadwy ymhlith y busnesau twristiaeth sy'n cymryd rhan yng Nghynlluniau Graddio Croeso Cymru. Nod Croeso Cymru yw sicrhau bod

dulliau cynaliadwy yn ategu'r gwaith o wella ansawdd cyffredinol twristiaeth yng Nghymru.

Rydym wedi paratoi canllawiau i'w defnyddio ochr yn ochr â Chynllun Parciau Gwyliau Graddedig Prydain – mae Croeso Cymru wedi nodi'r materion a'r camau gweithredu yn yr un drefn.

Mae mwy a mwy o ymwelwyr yn chwilio am opsiynau gwyrddach wrth ddewis gwyliau. Dyma rai o'r cwestiynau y gallant eu gofyn am eu llety:

- A oes polisi amgylcheddol ar gael? Neu, a yw'n aelod o gynllun twristiaeth werdd?
- A ddefnyddir cyflenwyr lleol ar gyfer bwyd, diod neu nwyddau a gwasanaethau eraill?
- A ddefnyddir cynhyrchion glanhau ecogyfeillgar?
- A gymerwyd camau i leihau a monitro'r defnydd o ynni a dŵr?
- A yw'r wefan a'r deunydd hyrwyddo yn awgrymu ffyrdd eraill o deithio heblaw defnyddio car preifat?
- A yw'r gweithredwr yn cyfrannu at elusen amgylcheddol neu addysgol leol?
- A yw'r gweithredwr yn hyrwyddo naws am le, e.e. yn hyrwyddo'r Gymraeg, yn cynnig bwyd lleol, yn arddangos gwaith celf a chrefftau lleol.

Fel arfer, ni fydd gwestai na darpar westai yn gofyn y cwestiynau hyn ar lafar, ond efallai y byddant yn eu helpu i benderfynu ble maent am aros. Er mwyn sicrhau bod eich busnes chi ar y blaen i fusnesau eraill sy'n cystadlu yn eich erbyn, mae angen i chi feddwl lle mae eich busnes chi arni o ran yr agweddau hyn ar wasanaeth safonol. Mae'r cyfan yn cyfrannu at fusnes da cyson yn y tymor hir.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y canllawiau uchod, gweler y manylion cyswllt yng nghefn y llyfryn hwn, neu ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/pecyn-cymorth-cynaliadwy> a dilynwch y ddolen i 'Twristiaeth Gynaliadwy'.

1.6 Naws am Le

Er nad yw ansawdd byth yn colli ei blwyf, bydd creu Naws am Le yn helpu i sicrhau bod eich ymwelwyr yn cael profiad bythgofiadwy.

Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion, cynnyrch, neu nodwedd at eich busnes er mwyn creu naws lleol. Neu beth am ddysgu ffeithiau diddorol am eich ardal i'w rhannu â'ch ymwelwyr? Mae 'croeso' syml hefyd yn creu argraff gyntaf arbennig o dda.

Dyma drosolwg o frand Cymru a rhywfaint o arweiniad ar ein naws am le. Gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i gynnig profiad heb ei ail i'ch ymwelwyr.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol>

1.7 Hygyrchedd

Er mis Hydref 2007 mae'r Datganiad Mynediad wedi dod yn rhan orfodol o'r broses raddio. Yn y cyd-destun hwn mae Datganiad Mynediad yn ddatganiad ysgrifenedig clir, cywir a gonest o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a gynigir gennych – **NAWR**. Ystyrir mai Datganiad Mynediad yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflwyno eich rhinweddau hygyrch i'r darpar ymwelydd.

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau i ddileu rhwystrau a gwella hygyrchedd i bobl anabl 'lle bo hynny'n rhesymol'. Er mwyn helpu gyda'r amcan hwn rhoddir yr awgrymiadau canlynol i ategu'r datganiad mynediad.

Gall rhai awgrymiadau fod yn fwy priodol i fusnesau mwy o faint, ond mae rhai sy'n berthnasol i barc neu safle o unrhyw faint neu fath. Nid yw'r awgrymiadau a restrir yn gynhwysfawr o bell ffordd, ond bydd rhoi ystyriaeth i ddarparu rhai ohonynt, os nad pob un ohonynt, nid yn unig o fudd i'r ymwelydd ond hefyd i gynaliadwyedd eich busnes. Wrth i ymwelwyr alw am fwy o 'werth am arian', mae Hygyrchedd yn faes pwysig ar gyfer sicrhau hynny.

1.7.1 Y Dderbynfa a Gwasanaethau'r Dderbynfa

- Mae'r dderbynfa wedi ei harwyddo'n glir.
- Cilfach neu gilfan barcio benodedig ar dir gwastad a chadarn o fewn 25m i'r fynedfa.
- Mynedfa wastad/ar ramp fel dewis arall yn lle grisiau, gyda chanllaw ac ymylon y grisiau wedi eu hamlygu.
- Botwm Galw am Wasanaeth.
- Lled o 800mm o leiaf ar gyfer drws y fynedfa.
- Cynllun mewnlol eang gyda seddi.
- Mae rhan o ddesg y dderbynfa yn hygyrch i rywun sydd ar ei eistedd.
- Ffôn cyhoeddus, y gall rywun sydd ar ei eistedd ei ddefnyddio, gyda lwfer acwstig.
- Hysbysiadau wedi eu hysgrifennu mewn print clir ac nid â llaw.
- Dolen sain sefydlog neu gludadwy.

- Gweithdrefnau archebu. Mae'n well gan bob un ohonom gyfathrebu mewn ffyrdd gwahanol, ac nid oes gan bawb fynediad i'r rhyngwyd. Mae'n bosibl i'r ymwelydd archebu dros y ffôn, drwy lythyr, e-bost, ffacs, ar-lein, gwasanaeth 'typetalk'... ac ati.
- Holi bob tro a oes gan yr ymwelydd unrhyw ofynion hygyrchedd.
- Ystyried caniatáu i staff ddilyn cwrs hyfforddiant mewn Cydraddoldeb Anabledd.

1.7.2 Siopau

- Mae'r siop wedi ei harwyddo'n glir.
- Cilfach neu gilfan barcio benodedig ar dir gwastad a chadarn o fewn 25m i'r fynedfa.
- Mynedfa wastad/ar ramp fel dewis arall yn lle grisiau, gyda chanllaw ac ymylon y grisiau wedi eu hamlygu.
- Botwm Galw am Wasanaeth.
- Lled o 800mm o leiaf ar gyfer drws y fynedfa.
- Cynllun mewnol eang gyda 1200mm rhwng yr arddangosfeydd.
- Pob hysbysiad ac eitem sydd ar werth wedi eu hysgrifennu mewn print clir ac nid wedi'u hysgrifennu â llaw.
- Ystyried caniatáu i staff ddilyn cwrs hyfforddiant mewn Cydraddoldeb Anabledd.

1.7.3 Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd ac ati

- Cadw pob llwybr yn glir ac wedi'i oleuo'n dda fel bod modd i bobl gerdded yn ddiogel wrth ddefnyddio ffrâm gerdded neu, lle bo'n gymwys, i helpu defnyddwyr cadair olwyn.
- Ar bob gris neu newid mewn lefel, darparu sribyn ymyl flaen lliwgar cyferbyniol.
- Dylid darparu canllawiau lle mae newidiadau mewn lefelau a dylent fod yn barhaus ar risiau a phennau grisiau.
- Lle darperir lifftiau nid yw bob amser yn ddarbodus/yn bosibl yn strwythurol i osod un yn ôl y Canllawiau Arfer Gorau.
- Fodd bynnag, mae'n bosibl ôl-gyfarparu lifftiau gyda negeseuon clywadwy a llythrennau codi ar gyfer y paneli rheoli.
- Rhoi gwybodaeth glir am y weithdrefn gadael mewn tân.
- Pan osodir lifft newydd y dimensiwn mewnol dewisol yw 1200 x 1400 o ddyfnder gydag agoriad drws o 850mm.
- Mae drych ar y wal gefn yn helpu defnyddiwr cadair olwyn i symud i mewn ac allan.

- Mae lifftiau siswrn/plattform bach ar gael ar gyfer newidiadau bach mewn lefelau.
- Amgylchedd taclus gyda manau y gellir cerdded drwyddynt yn glir.
- Amrywiaeth o seddi isel, uchel, cadarn, breichiau meddal/dim breichiau ar gadeiriau.
- Bydd llestri a llieiniau bwrdd o liwiau cyferbyniol yn helpu gwesteion â nam ar eu golwg.
- Bwrdd/byrddau gyda 650mm i 750mm o le oddi tanynt ar gyfer safleoedd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.
- Dylai toiledau ar gyfer ystafelloedd cyhoeddus ac sydd ar gael i'r cyhoedd fod yn gwbl hygyrch ac wedi'u cynllunio yn unol â Rhan M o'r rheoliadau adeiladu. Gallai dynion a merched ddefnyddio'r un toiledau os yw lle yn brin.
- Hefyd mewn lleoliadau penodol, bydd wrinalau, powlliau toiledau a basnau golchi dwylo gyda chanllawiau cymorth yn helpu llawer o westeion.
- Ystyried caniatáu i staff ddilyn cwrs hyfforddiant mewn Cydraddoldeb Anabledd.

1.7.4 Adloniant, Chwaraeon a Hamdden

- Darparu reidiau cynhwysol i'r rhai sydd â nam symudedd.
- Darparu ystafelloedd newid i'r teulu.
- Y cyfleuster i osod neu ddarparu peiriant codi ar gyfer y pwll.
- Darparu llwyfannau pysgota gwastad gyda mecanweithiau clymu.
- Ystyried caniatáu i staff ddilyn cwrs hyfforddiant mewn Cydraddoldeb Anabledd.

1.7.5 Tiroedd a Chyfleusterau'r Parc

- Arddangos arwyddion clir a diamwys.
- Goleubwyntio twmpathau arafu.
- Ymgorffori cyrbiau isel a marcwyr botymog wrth fannau croesi.
- Darparu goleuadau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae perygl.
- Nodi ardal lle gall cŵn redeg yn rhydd a gwneud eu busnes.
- Darparu seddi bob hyn a hyn a gyferbyn â nodweddion/tirnodau y parc/safle.
- Nodi llwybrau penodol i gerddwyr mewn manau a rennir â cheir/cerbydau.

1.7.6 Lleiniau ar gyfer Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau, Carafanau Teithio a Phebyll

- Derbynnir nad yw'n bosibl yn ariannol i bob parc ddarparu nifer o unedau Hygyrch dynodedig yn eu fflydoedd llogi, ond dylid ystyried sicrhau mwy o fynediad ar ffurf rampiau i'r unedau ar safleoedd mwy gwastad.
- Darparu man parcio gwastad a chadarn i geir wrth ochr yr unedau.
- Darparu o leiaf un llain wastad ar gyfer carafán deithio/pabell o fewn 50m i unrhyw doiled a chyfleusterau ymolchi, gyda llwybr gwastad a chadarn yn arwain ati.

1.7.7 Toiledau a Chyfleusterau Ymolchi

- Darparu deunyddiau ac offer glanhau lloriau gwrthlithro.
- Darparu toiled y gall dynion a merched ei ddefnyddio o fewn 100m i unrhyw 'leiniau hygyrch dynodedig'.
- Darparu mynedfeydd gwastad/ar ramp gydag agoriad drws o 800mm o leiaf.
- Darparu canllawiau cymorth ar gyfer eitemau'r ystafelloedd ymolchi.
- Darparu llinyn/cordyn argyfwng sy'n gysylltiedig â larwm allanol clywadwy/gweledol.
- Darparu ciwbiclau cawodydd mynediad gwastad gyda sedd neu gadair cawod bwrpasol.

Am ragor o wybodaeth am ddatganiadau mynediad, gweler Adran 1.4.

1.8 Meini Prawf Gofynnol ar gyfer Parciau Gwyliau, Parciau Teithio a Pharciau Gwersylla

Dynodwyr

Bydd yn rhaid i fusnesau sydd am ddefnyddio'r dynodwyr hyn fodloni'r meini prawf canlynol:

- Parc Gwyliau
- Parc Teithio
- Parc Gwersylla

Mae'r rhain yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

- Parc Gwyliau – "Parc dynodedig neu drwyddedig â charafanau sy'n gartrefi gwyliau ar safleoedd parhaol, i'w llogi neu at ddefnydd preifat. Efallai y darperir cyfleusterau hamdden neu adloniant ychwanegol."

- Parc Teithio – "Safle dynodedig neu drwyddedig lle gellir gosod carafanau teithio at ddefnydd gwyliau."
- Parc Gwersylla – "Safle dynodedig neu drwyddedig lle gall pobl ar wyliau godi pabell."

Os oes cyfuniad o unedau, e.e. carafanau sefydlog a charafanau teithio, yna gellir rhoi "Parc Gwyliau a Theithio" fel dynodwr. *Pan ddangosir Gradd Sêr Croeso Cymru rhaid dangos y Dynodwr swyddogol gyda hi bob tro.*

Pob dynodwr uchod:

Gofynion Cyffredinol

1. Rhwymedigaethau Statudol

Cyflawni eich rhwymedigaethau statudol, lle bônt yn berthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Diogelwch

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Diogelwch Tân, Nwy a Thrydan
- Profi Offer Trydanol
- Diogelwch Cynnyrch
- Safonau Prydeinig sy'n berthnasol i eitemau megis cotiau, cadeiriau uchel a chorlannau chwarae

Parc/Safle

- Caniatâd Cynllunio
- Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 (fel y'i diwygiwyd)
- Trwydded safle
- Cyflenwadau Dŵr Preifat
- Tai
- Trwyddedau Teledu
- Rheoliadau Ailwerthu Trydan a Nwy

Gwahaniaethu

- Deddf Cydraddoldeb 2010

Cofnodion

- Diogelu Data
- Cofnodion Gwestai ar Fewnfudo

Disgrifiadau Masnach

- Diogelu Defnyddwyr
- Hysbysebu
- Prisio
- Telerau Contract Annheg

Gofynnir i berchnogion hefyd ddarparu tystiolaeth bod Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn cael ei gynnal ac i roi cadarnhad wedi ei lofnodi, wrth wneud cais ac wrth adnewyddu cyfranogiad, bod y gofynion uchod yn cael eu bodloni.

2. Rheolwyr i gadw at God Ymddygiad Croeso Cymru.
3. Darparu Datganiad Mynediad ar gyfer Pobl Anabl.
4. Rhaid i'r parc gael caniatâd cynllunio a chael trwydded safle, a dylai copi o'r drwydded fod ar gael yn hawdd, lle bo'n gymwys. Os nad yw trwydded safle yn gymwys, efallai y bydd angen tystiolaeth ddogfennol yn cadarnhau prawf eithrio.
5. Rhaid i'r parc gael o leiaf chwe (6) llain.
6. Rhaid i'r parc fod ar agor am o leiaf bedwar mis yn olynol bob blwyddyn.
7. Rhaid i bob cartref gwyliau mewn carafân sydd ar gael i'w logi ar y parc gydymffurfio â Safon Ewropeaidd EN 1647 neu Safon Brydeinig BS 3632, Safon Ofynnol Croeso Cymru a bod o wneuthuriad masnachol.
8. Rhaid i weithredwr y parc allu trefnu neu wneud gwaith atgyweirio i garafanau neu gyfarpar.
9. Rhaid i gyflenwadau nwy a photeli nwy newydd ynghyd â darnau sbâr hanfodol fod ar gael ar bob adeg resymol.

Gellir gwneud eithriad yn ôl disgrisiwn Croeso Cymru lle:

- *Cyflenwir pob llain gyda chyflenwad nwy wedi ei bibellu ar y safle. Neu*
 - *Mae cyflenwr amgen ar gael o fewn 5 milltir i'r parc. Rhaid i'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt fod ar gael mewn man amlwg ar y safle. Neu*
 - *Mae cyflenwr amgen ar gael a fydd yn ei ddsbarthu i'r safle. Rhaid i'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt fod ar gael mewn man amlwg ar y safle.*
10. Rhaid i becyn cymorth cyntaf masnachol fod ar gael yn hawdd.
 11. Rhaid i hysbysiadau argyfwng gael eu harddangos yn amlwg gan roi manylion:
 - *Cyswllt 24 awr mewn argyfwng yn y parc*
 - *Lleoliad a rhifau ffôn (gan gynnwys 999) ar gyfer:*
 - *Yr Heddlu*
 - *Meddyg*
 - *Deintydd*
 - *Gwasanaeth Tân ac Achub*
 - *Ysbyty lleol*

- *Gwasanaethau brys lleol perthnasol eraill e.e. Gwylwyr y Glannau neu'r Gwasanaeth Achub Mynydd*
12. Mewn lleoliadau lle nad oes signal ffôn symudol, rhaid i ffôn sy'n gallu gwneud galwadau brys fod ar gael i ymwelwyr. Gall hwn fod mewn eiddo preswyl ar y safle e.e. Preswylfa Wardeiniaid neu Berchnogion.
 13. Rhaid i'r parc gael trefniadau derbynfa ar adegau priodol er mwyn i ymwelwyr gael eu cyfeirio at eu carafân sy'n gartref gwyliau/llain, a lle gellir cael cyngor a chymorth os bydd angen.
 14. Darparu gwybodaeth i dwristiaid gan gynnwys manylion am y siopau agosaf, peiriannau arian parod ac atyniadau lleol.
 15. Diogelwch cyffredinol i'w gynnal i raddau priodol ym mhob rhan o'r parc a chyfleusterau sy'n briodol i faint y busnes.

Toiledau a Chawodydd

16. Os oes gan y parc/safle Doiledau neu Gawodydd, rhaid iddynt fod ar agor bob amser pan fo'r parc ar agor.
17. Rhaid i'r toiledau a'r cawodydd i gyd fod wedi eu goleuo'n ddigonol, y tu mewn a'r tu allan, yn ystod yr oriau o dywyllwch pan fydd y parc ar agor.
18. Rhaid i bob cawod gael digon o olau, naturiol neu artiffisial, fel y gellir ei defnyddio yn ddiogel bob amser.
19. Rhaid i gyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer fod ar gael ym mhob cawod a bloc toiledau sydd ar gael i'w defnyddio ar bob adeg resymol.
20. Rhaid i bob cawod a thoiled a ddefnyddir yn ystod y cyfnod 1 Hydref hyd at 31 Mawrth fod wedi eu gwresogi'n ddigonol.
21. Dylai pob toiled ddarparu'r canlynol
 - *Rholyn o bapur toiled a daliwr.*
 - *Cynwysyddion gwaredu tyweli misglwyf yn hanner y ciwbiclau o leiaf ym mhob bloc o gyfleusterau (merched).*
 - *Basnau golchi dwylo gyda phlygiau a sebon.*
 - *Cyfleusterau sychu dwylo.*
22. Dylid gosod neu ddarparu'r canlynol yng nghiwbiel pob cawod:
 - *Drws a/neu len cawod.*
 - *Gwaelod cawod gwrthlithro neu fatiau cawod gwrthlithro.*
 - *Silff neu ddysgl sebon yn y gawod.*

23. Dylid darparu bachau ar gyfer hongian dillad fel a ganlyn:
- *Yng nghiwbiel pob toiled.*
 - *Y tu mewn i bob cawod os oes ardal newid sych yng nghiwbiel y gawod, i'w gosod gyferbyn â'r ciwbicel os nad oes un.*
 - *Gyferbyn â basnau golchi dwylo ac yn gyfleus i'w defnyddio gyda hwy.*
24. Dylid darparu cyfleusterau sychu gwallt yng nghyfleusterau'r merched os oes gan y parc 4 neu 5 seren.
25. Dylid darparu socedi eillio, gyda drych gyferbyn, ym mhob un o flociau'r dynion.
26. Os darperir cyfleusterau newid babanod rhaid i'r rhain fod ar gael i'r mamau a'r tadau eu defnyddio h.y. cyfleusterau cymaradwy ar gael ym mlociau toiledau'r dynion a'r merched neu gyfleusterau ar wahân y gall y ddau ryw eu defnyddio.
27. Lle darperir cawodydd a thoiledau hygrych, rhaid iddynt fod o ystod ac ansawdd tebyg i gawodydd a thoiledau eraill yn y parc.

Cyfleusterau'r Safle

28. Rhaid i'r defnydd bwriadedig o'r holl gyfleusterau ar y safle gael ei nodi'n glir drwy ddefnyddio arwyddion. Mewn parciau mwy o faint rhaid i leoliad y cyfleusterau gael ei arwyddo'n glir hefyd.
29. Rhaid i bob ffordd fynediad, trac neu lwybr ar y safle gael eu cadw mewn cyflwr derbyniol er mwyn i ymwelwyr allu defnyddio eu cerbydau, neu er mwyn i bobl allu cerdded ar hyd-ddynt yn ddiogel, heb achosi difrod i gerbydau na chyfarpar sy'n cael eu tynnu y tu ôl i gerbydau.
30. Goleuadau digonol a phriodol wrth y fynedfa i'r safle ac ar bob prif ffordd fynediad ar y safle (yn ôl math, maint a lleoliad) yn ystod yr oriau o dywyllwch.
31. Digon o oleuadau allanol ym mhob cyfleuster sydd ar agor yn ystod yr oriau o dywyllwch (e.e. bariâu, clybiau, arcedau difyru).
32. Rhaid bod darpariaeth ddigonol ar gyfer gwaredu sbwriel. Lle bo hynny'n ymarferol dylai hyn gynnwys rhyw fath o gyfleusterau ailgylchu.
33. Rhaid i'r parc gael cyfarpar diffodd tân addas a hysbysiadau rhybudd sy'n cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol presennol.

34. Rhaid i barciau sy'n darparu unrhyw leiniau teithio neu wersylla ddarparu cyfleusterau gwaredu gwastraff cemegol addas oni waherddir hynny'n benodol yn ôl telerau trwydded y safle neu ofyniad arall gan yr awdurdod lleol.
35. Rhaid gosod larymau mwg a synwryddion carbon monocsid ym mhob llety sy'n cael ei osod (yn ofynnol erbyn 1 Ionawr 2014).
36. Pob uned gosod i gyrraedd Safonau Gofynnol ar gyfer Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau a Chabanau sydd i'w Llogi. (*Atodiad 1 – tudalen 9*).
37. Cydymffurfio â Rhestr o Gyfarpar a Argymhellir a darparu copi ym mhob uned gosod. (*Atodiad 2 – tudalen 9*).

Cymwysyddion Dyfarnu

4 Seren ★★★★★

(*Pob dynodwr os darperir lleiniau Teithio neu Wersylla.*)

- Rhyng-gysylltiadau trydanol ar gael ar 50% o'r lleiniau Teithio annhymhorol*.
- *Llain "dymhorol" yw un a osodir am bris sefydlog i berchennog carafán deithio unigol at ei ddefnydd ef yn unig ar gyfer tymor cyfan.
- Rhaid i bob cawod a thoiled a ddefnyddir rhwng 1 Medi a 31 Mai gael eu gwresogi fel sy'n briodol yn ôl y tywydd ar y pryd.
- Cyfleuster golchi llestri dan do gyda dŵr poeth ac oer os darperir unrhyw leiniau gweryslla.
- Rhaid darparu cymarebau gofynnol o doiledau, cawodydd, wrinalau a basnau ymolchi i leiniau fel a ganlyn:

Dynion	Merched
1 wrinal fesul 30 o leiniau	Amherthnasol
1 toiled fesul 30 o leiniau	2 doiled fesul 30 o leiniau
2 fasn fesul 30 o leiniau	2 fasn fesul 30 o leiniau
1 bath/cawod fesul 25 o leiniau	1 bath/cawod fesul 25 o leiniau

D.S. 28 – Ni ddylid caniatáu i gaeau dydd na'r defnydd o gaeau rali/caeau gorlif effeithio ar y nod o sicrhau'r cymarebau uchod.

Cymwysyddion Dyfarnu

5 Seren ★★★★★

(*Pob dynodwr os darperir lleiniau Teithio neu Wersylla.*)

- Os yw'r parc yn derbyn carafanau teithio, rhaid i ryng-gysylltiadau trydanol fod ar gael ar bob un o'r lleiniau teithio annhymhorol.*
*Llain "dymhorol" yw un a osodir am bris sefydlog i berchennog carafán deithio unigol at ei ddefnydd ef yn unig ar gyfer tymor cyfan.
- Dylid gwresogi pob cawod a thoiled a ddefnyddir fel sy'n briodol yn ôl y tywydd ar y pryd, pryd bynnag y bydd y parc neu'r safle ar agor ar gyfer busnes.
- Ardal newid sych yng nghiwbiol pob cawod.
- Pob cawod ar gael i'w defnyddio am ddim.

A darparu o leiaf dri o'r cyfleusterau canlynol:

- Ystafell sychu.
- Cegin/ardal goginio dan do i wersyllwyr.
- Cyfleuster i wneud barbeciw.
- Pob llain wersylla ar dir gwastad os yw tirwedd gyffredinol y safle yn anwastad.
- Ardal chwarae i blant.
- Bar trwyddedig.
- Bath/cawod i'r teulu.
- Golchdy.
- Lleiniau aml-gyfleuster gyda rhyng-gysylltiad trydanol, cyflenwad unigol o ddŵr ffres a draeniau sefydlog, o leiaf.
- Wi-Fi a/neu fynediad i'r rhynggrwyd/caffi rhynggrwyd.

Dylai Parciau Gwyliau â mwy na 300 o leiniau, y mae mwy na hanner ohonynt yn lleiniau Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau, ddarparu o leiaf 3 o'r cyfleusterau canlynol:

- Clwb gydag adloniant byw.
- Pwll nofio (dan do).
- Pwll nofio (awyr agored).
- Siop ag amrywiaeth helaeth o fwydydd a nwyddau cyffredinol.
- Tŷ Bwyta/caffi.
- Cyfleuster cludfwyd.
- Ardal chwarae i blant (dan do).
- Ardal chwarae i blant (awyr agored).
- Cyrtiau chwaraeon.
- Bar trwyddedig.
- Golchdy.
- Clwb Plant, gweithgareddau i blant wedi'u trefnu.
- Wi-Fi a mynediad i'r rhynggrwyd/caffi rhynggrwyd.

Atodiad 1

Safonau Gofynnol Croeso Cymru ar gyfer Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau i'w Llogi:

1. Cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau bod gan bob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi yswiriant ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus fel carafanau gosod.
2. Rhaid i bob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi fod o wneuthuriad masnachol a chydymffurfio â Safon Ewropeaidd EN 1647 neu Safon Brydeinig BS 3632.
3. Rhaid i bob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi gynnwys gwasanaethau llawn o ran dŵr, draeniau, cysylltiadau nwy/trydan gan gynnwys toiled, cawod a/neu fath wedi eu cysylltu â'r prif gyflenwad dŵr, oergell a phopty gyda ffwrn, gridyll a 4 cylch berwi. Rhaid i'r popty fod mewn cyflwr da a glân a rhaid ei fod yn gweithio'n iawn.
4. Rhaid i bob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan ac wedi ei haddurno heb unrhyw leithder mewnol.
5. Yn y carafanau sy'n gartrefi gwyliau i'w llogi, rhaid sicrhau nad oes mwy o bobl yn aros yn y garafán na'r nifer a fwriadwyd gan y gwneuthurwr e.e. pedwar person yn achos carafán â phedwar gwely.
6. Dylai cyfarpar gael ei ddarparu yn ôl y rhestr. Dylai copi o'r rhestr o gyfarpar fod ar gael ar gyfer pob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi.
7. Rhaid i bob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi fod â digon o le storio ar gyfer bagiau a bwyd ar gyfer y nifer fwyaf o bobl a all aros ynddi.
8. Rhaid i bob drws, ffenestr, ffenestr do, system awyru a gwresogi (os cânt eu darparu) yn y garafán sy'n gartref gwyliau i'w logi weithio'n gywir. Rhaid i bob ffenestr gael ei gosod yn gywir gyda llenni neu fleinds didraidd, gan gynnwys drysau mewnol gwydrog lle darperir gwelyau yn y lolfa.
9. Rhaid sicrhau bod digon o oleuadau mewnol ym mhob carafán sy'n gartref gwyliau.
10. Rhaid i bob carafán sy'n gartref gwyliau gael ei glanhau'n drylwyr a'i harchwilio cyn ei gosod bob tro a rhaid cynnal a chadw'r cyfarpar a phrynu cyfarpar newydd os bydd angen.
11. Os darperir dillad gwely rhaid eu newid bob tro y bydd rhywun newydd yn aros yn y garafán ac fel y bo'n briodol os caiff ei gosod am bythefnos neu fwy. Rhaid i bob matres fod mewn cyflwr da.

12. Rhaid i'r sinc a'i phibell wastraff fod mewn cyflwr da gyda bwrdd draenio. Rhaid darparu wyneb gwaith anhydraiddd sefydlog ar gyfer paratoi bwyd.
13. Rhaid sicrhau bod digon o wres ym mhob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi (o leiaf, yn y lolfa).
14. Rhaid sicrhau bod grisiau diogel, neu rywbeth tebyg, wrth ymyl bob drws allanol mewn carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi.
15. Rhaid sicrhau bod cyflenwad o ddŵr poeth ac oer ym mhob carafán sy'n gartref gwyliau.
16. Rhaid i bob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi, a pherchnogion y cartrefi hynny, gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
17. Rhaid gosod larymau mwg a synwryddion carbon monocsid ym mhob llety a osodir.

Atodiad 2

Rhestr Croeso Cymru o Gyfarpar a Argymhellir ar gyfer pob Carafán sy'n Gartref Gwyliau i'w Logi:

Fel arfer, dylai'r llety gynnwys y canlynol:

1 i bob carafán sy'n gartref gwyliau

- Tegell trydan awtomatig
- Tebot
- Sosban a chaead (bach, canolig a mawr)
- Padell ffrio
- Colandr
- Padell rostio
- Tun pobi
- Dysgl caserol
- Cyllell a fforc torri cig
- Cyllell fara
- Tun bara/teisennau
- Bwrdd bara/briwfrdd
- Ysbodol bysgod
- Cyllell lysiau (miniog)
- Dyfais agor tun
- Powlen gymysgu
- Plât bara/cacen
- Corcsgriw/agorwr potel
- Piliwr tatws
- Lletwad
- Gratur
- Llwy (blastig neu bren)
- Llestr gwneud îâ
- Cadach golchi llestri a newidir bob tro y gosodir y garafán
- Powlen salad

- Matiau bwrdd i bob person
- Haearn a bwrdd smwddio naill ai yn yr uned neu ar gael ar y safle
- Deunydd glanhau (hylif golchi llestri, glanhawr amlbwrpas ac ati)
- Stwnsiwr tatws
- Siswrn cegin
- Dysgl ffrwythau (mawr)
- Dysgl menyn
- Powlen siwgr
- Hambwrdd
- Jwg (llaeth)
- Jwg (mesur)
- Pupur a halen
- Powlen golchi llestri
- Padell llwch a brwsh
- Brwsh llawr
- Cadach llawr
- Sgwriwr sosbenni/mop llestri
- Bwced
- Drych
- Hwfer neu sgubwr carped
- Mat drws
- Brwsh toiled a daliwr
- Rholyn papur toiled a daliwr
- Biniau anfflamadwy
- Cyfleuster sychu dillad ar y safle neu ym mhob uned
- Menig neu faneg popty
- Bylbiau golau sbâr naill ai yn yr uned neu ar gael yn y dderbynfa
- Chwisg
- Blanced dân/diffoddydd tân (wedi eu cymeradwyo gan BS)

2 i bob carafán sy'n gartref gwyliau i'w logi

- Llwyau bwrdd
- Cadachau hel llwch
- Blychau llwch (lle caniateir ysmysgu)

Fesul Gwely

- 3 blanced neu 1 duvet a gorchudd (ar gyfer gosod yn y gaeaf, neu osod yn gynnar neu'n hwyr yn y tymor rhaid ychwanegu at y dillad gwely a darparu digon o wres)
- 2 obennydd i bob person ar welyau'r oedolion
- 1 gobennydd i bob person ar welyau'r plant

1 i bob person

- Cyllell (fwrdd a phwdin)
- Cwpan te a soser
- Fforc (fwrdd a phwdin)
- Mwg

- Llwy (bwddin, cawl a the)
- Powlen/dysgl grawnfwyd/cawl
- Plât (mawr a bach)
- Cwpan wy
- Tymbler

4 i bob person

- Cambrenni

1.9 Cynllun Ansawdd Gradd Sêr – Canllawiau i Weithredwyr

Wrth baratoi ar gyfer ymweliad Sicrhau Ansawdd byddem yn argymhell eich bod yn sicrhau bod unrhyw waith papur perthnasol wrth law (adroddiad graddio y llynedd er enghraifft) a'ch bod yn gwneud nodyn er mwyn i chi allu cyfeirio at faterion penodol yr hoffech eu trafod gyda'r Cynghorydd Ansawdd.

Bydd y Cynghorydd Ansawdd yn cynnal asesiad gofalus o'r Parc ond, er eich budd chi, rhaid sicrhau ei fod yn ymwybodol o newidiadau diweddar ac unrhyw fuddsoddiadau a wnaed. Yn yr un modd, ar adegau efallai y byddai'n werth egluro a rhoi rhai pethau am eich Parc yn eu cyd-destun ar gyfer y Cynghorydd Ansawdd. Nid yw llawer yn digwydd ar ddamwain, ond hyd yn oed gyda rhywun profiadol, gall y rheswm dros rai pethau fod yn anodd ei ddeall weithiau! Yn ôl pob tebyg, gall 'hynod', er enghraifft, fod yn ffordd ddyfeisgar ac ymarferol braidd o wneud rhywbeth, neu fod yn fater o gryn falchder neu werth sentimental. Eich cyfrifoldeb chi fel cyfranogwr yw sicrhau bod y Parc yn cael ei ystyried a'i ddeall yn briodol yn ei gyd-destun gan y Cynghorydd Ansawdd.

Er na fyddem yn awgrymu ar unrhyw gyfrif y dylid gwneud 'ymdrech arbennig' cyn yr ymweliad, o ran glendid er enghraifft, mae'n aml yn werth cymryd eich amser ac edrych o amgylch eich Parc unwaith eto. Gall mân faterion yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw cyffredinol sydd heb ei wneud roi argraff lai ffafriol o eiddo na'r hyn y mae'n ei haeddu.

Bydd Cynghorwyr Ansawdd yn ystyried y materion cyffredinol isod wrth raddio parciau:

Math, Maint a Lleoliad

Rhoddir ystyriaeth fanwl i'r math o barc, ei faint a'i lleoliad wrth raddio cyfleusterau. Mae Cynghorwyr Ansawdd yn ymwybodol o'r ffactorau hyn. Asesir cynllun mewnol/maint derbynfa, er enghraifft, yng ngoleuni'r llif posibl o ymwelwyr ac mae hynny'n dibynnu ar faint y parc a'r math o barc a'r patrwm defnyddio tebygol. Mae tirlun a chynllun y parc hefyd yn

adlewyrchu'r math o barc a'i lleoliad. Mae rhesi difwlch bron yn anochel mewn rhai parciau ond gellid gwneud ymdrech i wella cynllun parciau mwy llinellol, naill ai drwy addasu aliniad cartrefi gwyliau lle bo hynny'n bosibl, neu drwy ddefnyddio tirlunio ychwanegol.

Glendid

Wrth asesu glendid, ystyrir y tywydd diweddar, a/neu a yw'r glaswellt newydd gael ei dorri. Yn wahanol i westai mawr neu fach a llawer o fathau eraill o lety, rhaid i bobl sy'n defnyddio cyfleusterau mewn parciau carafanau gerdded ar draws tir agored bob amser. Llawr 'brwnt'/'budr' yw un lle y caniatwyd i'r baw gronni dros gyfnod o amser, nid mwd a glaswellt a gariwyd i mewn yn ystod y diwrnod hwnnw yn unig. Fodd bynnag, rhaid i'r graddau a roddir ar gyfer glendid y cyfleusterau a ddarperir barhau'n gyson drwy'r amser, ac nid yw lleoliad y parc na'r defnydd ohono, o dan yr eitem hon, yn dylanwadu ar Gynghorwyr Ansawdd mewn unrhyw ffordd.

Eitemau sydd ar Goll

Os daw Cynghorwyr Ansawdd ar draws unrhyw beth sydd wedi torri neu sydd ar goll, e.e. siglenni plant, ffenestri, cyfarpar golchdy, diffoddyddion tân ac ati, cânt eu dwyn i sylw perchennog/rheolwr y parc. Os yw hyn wedi digwydd yn ddiweddar, a bod darn newydd wedi ei archebu neu bod y gwaith trwsio'n mynd rhagddo, bydd y Cynghorydd Ansawdd yn arddel doethineb, ac yn seiliedig ar hanes graddio'r parc hwnnw a'r sylw i fanylion mewn rhannau eraill o'r parc, caiff yr ymateb ei ystyried a'i ymgorffori yn y radd.

Hen neu Newydd

Mae graddio yn golygu taro cydbwysedd rhwng ansawdd a chyflwr, felly nid yw newydd o reidrwydd yn golygu gwell.

Graddio ar gyfer y Flwyddyn Nesaf

Caiff graddau'r parc eu cyhoeddi ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Os yw perchennog/rheolwr y parc yn hysbysu'r Cynghorydd Ansawdd ei fod yn bwriadu cael gwared ar gyfleuster gwael neu ei ddymchwel cyn hynny, a'i fod yn barod i roi ymrwymiad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw, gellir hepgor y cyfleuster o'r asesiad graddio.

Marcio dwbl

Dim ond unwaith y caiff pob agwedd ar barc ei hystyried. Er enghraifft, asesir Glendid yn benodol ym mhob ardal, felly ni chaiff ei ystyried eto yn yr asesiad 'Gofod, Cysur a Hwylustod'.

Gofalu am yr Amgylchedd

Mae'r Cynghorydd Ansawdd yn ymwybodol o'r ystod o fentrau cadwraeth y gall perchnogion parciau ymgymryd â hwy er mwyn diogelu amgylchedd y parc. Er enghraifft, ni chaiff marciau eu gostwng am ymyl glaswellt a adewir heb ei dorri wrth ymyl perth er mwyn creu coridor bywyd gwyllt, cyhyd ag y bo diben y dechneg dirlunio hon yn amlwg i ymwelwyr y parc.

Cyfrifo'r Dyfarniad

Fel gyda phob cynllun arall, asesir pob agwedd ar Barc ar raddfa o 1 i 5 ar sail ansawdd cynhenid a chyflwr presennol. Yna caiff y marciau hyn eu cyfuno a phennir sgôr ganrannol yn seiliedig ar hynny. Yna bydd y dyfarniad a gadarnheir yn seiliedig ar y ganran gyffredinol honno, ynghyd ag ystyriaeth o'r cymwysyddion dyfarnu.

Mae ymchwil defnyddwyr wedi dangos bod glendid yn hollbwysig ar unrhyw lefel ansawdd ac mae'r isafswm sgorau ar gyfer yr agwedd hon ar bob gradd sêr yn adlewyrchu'r angen hwn.

Mae'r ymchwil hon hefyd wedi dangos bod gwesteion yn disgwyl rhywfaint o gysondeb ym mhob agwedd ar y parc, sy'n golygu y dylai pob rhan o'r parc, ynnddi ei hun, fod o safon y gellir ei chymharu'n rhesymol â'r radd Sêr gyffredinol a ddyfarnwyd. Er mwyn sicrhau hyn, yn ogystal â'r sgôr gyffredinol briodol, rhaid cydymffurfio â safonau gofynnol ar gyfer pob ardal er mwyn cadarnhau dyfarniad.

Mae pob parc yn wahanol, ac mae'r cynllun graddio yn cydnabod hyn. Yn hytrach na bod yn haearnaidd, mae'r cynllun yn ymgorffori'r ffaith bod llawer o enghreifftiau gwahanol o fathau gwahanol o ddarpariaeth mewn parciau ledled Prydain. Ansawdd a chyflwr eitem sy'n cyfuno i greu marc, nid maint nac oedran yr eitem na'r ffaith ei bod wedi ei gwneud gan wneuthurwr penodol.

Bwriedir i'r 'Dangosyddion Ansawdd' canlynol roi awgrym o'r meincnodau/safonau nodweddiadol a welir gan Gynghorwyr Ansawdd Parciau Gwyliau. Mewn gwirionedd, mae'r marciau a ddyfernir yn aml yn gyfuniad o nifer o eitemau neu ardaloedd. Er enghraifft, bydd 'Lloriau Toiledau a Chyfleusterau Ymolchi' yn cynnwys lloriau a asesir ym mhob cyfleuster o'r natur honno a ddarperir yn y Parc. Gyda'i gilydd, gallai hyn yn hawdd fod yn ddwy neu dair enghraifft wahanol o loriau yn cael eu hasesu o dan yr un marc. Mewn enghreifftiau o'r fath bydd y marc yn adlewyrchu profiad y gwestai cyffredin. Os yw tair allan o bump o ardaloedd

llawr gwahanol o safon Ardderchog (5/5) ac mae'r ddwy sy'n weddill o safon eithaf da (2/5), mae'r marc a ddyfernir yn debygol o fod yn 3/5 – safon gyffredinol dda.

Prin yw'r Parciau sy'n cyrraedd y safonau uchaf ym mhob agwedd, ac mae amrywiadau, wrth i adnoddau gael eu cyfeirio at yr agweddau sydd bwysicaf i farchnad benodol, yn hollol dderbyniol a chyffredin. Ar yr amod bod amrywio'r safonau ansawdd cyffredinol o fewn diffiniadau'r bandiau a'r cymwysyddion dyfarnu, ni fydd hyn yn cyfyngu'n uniongyrchol ar y dyfarniad Sicrwydd Ansawdd cyffredinol.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod ymwelwyr yn dewis Parciau am amrywiaeth o resymau er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer amrywiaeth o ddibenion. Bydd dyfarniad Sicrwydd Ansawdd Croeso Cymru yn cefnogi ac yn cymeradwyo'n annibynnol weithgarwch hyrwyddo sy'n canolbwyntio ar y farchnad ar unrhyw lefel o ansawdd.

2.0 Agweddau a Ystyrir yn yr Aseiad Ansawdd

Glendid

- Derbynfeydd
- Siopau
- Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd
- Golchdai, Ystafelloedd Sychu
- Toiledau Cyhoeddus. Ystafelloedd Ymolchi/Cawod Hygyrch, Cyfleusterau Newid i'r Teulu a Babanod
- Hamdden
- Cegin a Man Bwyta i Wersyllwyr, Byrddau Picnic, Barbeciws
- Tiroedd y Parc
- Ardaloedd Sbwriel ac Ailgylchu
- Toiledau a Chawodydd (Dynion)
- Toiledau a Chawodydd (Merched)
- Cyfleusterau Teithio

Y Dderbynfya a Gwasanaethau'r Dderbynfya

D.S. Bydd hyn hefyd yn cynnwys aseiad o'r ystafell/adeilad gwybodaeth i dwristiaid os yw ar wahân i'r dderbynfya.

- Y Tu Allan/Ffryntiad
- Addurn a Lloriau
- Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal
- Goleuadau
- Gofod, Cysur a Hwylustod
- Gwybodaeth i Dwristiaid
- Gweithdrefnau Croesawu a Chyrraedd a Gwybodaeth i Westeion ar Adeg Cyrraedd

Cyfleusterau'r Parc

Siopau

- Y Tu Allan/Ffryntiad
- Addurn a Lloriau
- Darnau Gosod a Gosodiadau
- Goleuadau
- Gofod, Cysur a Hwylustod

Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd

- Y Tu Allan/Ffryntiad
- Addurn a Lloriau
- Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal
- Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru
- Gofod, Cysur a Hwylustod

Golchdai ac Ystafelloedd Sychu

- Y Tu Allan/Ffryntiad
- Addurn a Lloriau
- Goleuadau a Dulliau Awyru
- Darnau Gosod a Gosodiadau
- Cyfarpar
- Gofod, Cysur a Hwylustod

Adloniant, Chwaraeon a Hamdden

- Y Tu Allan/Ffryntiad
- Cyfleusterau (Dan Do)
- Cyfarpar (Dan Do)
- Cynllun a Hwylustod (Dan Do)
- Cyfleusterau (Awyr Agored)
- Cyfarpar (Awyr Agored)
- Cynllun a Hwylustod (Awyr Agored)

Tiroedd a Chyfleusterau'r Parc

- Goleuadau
- Arwyddion
- Mannau Ymgynnull Tân
- Arwynebau Ffyrdd a Llwybrau
- Gwaredu Sbwriel a Darpariaeth Ailgylchu
- Byrddau Picnic, Seddi yn yr Awyr Agored, Barbeciws, Ceginau a Mannau Bwyta i Wersyllwyr
- Tirlunio
- Gwaith Cynnal a Chadw ar Adeiladau Atodol neu Adeiladau Nas Defnyddir
- Cynnal a Chadw'r Tiroedd
- Cynllun y Parc
- Mannau Parcio a Chyfleusterau Cyrraedd yn Hwyr

Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau a Charafanau Teithio Tymhorol Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau a Charafanau Tymhorol (nad ydynt ar osod)

- Y Tu Allan

- Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt
- Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw
- Cysylltiadau â'r Lleiniau a Chysylltiadau â Gwasanaethau

Agweddau Allanol Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau ar Osod

- Y Tu Allan
- Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt
- Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw
- Cysylltiadau â'r Lleiniau a Chysylltiadau â Gwasanaethau

Toiledau a Chyfleusterau Ymolchi

- Y Tu Allan/Ffryntiad
- Addurno
- Lloriau
- Goleuadau
- Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru
- Darnau Gosod, Gosodiadau ac Offer Ymolchfa (Toiledau a Basnau)
- Darnau Gosod a Gosodiadau Ystafell Ymolchi (Cawodydd)
- Gofod, Cysur a Hwylustod

Lleiniau Teithio, Cartrefi Modur a Gwersylla

- Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt
- Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw
- Rhyng-gysylltiadau Trydanol
- Pwyntiau Dŵr a Gwaredu Dŵr Llwyd
- Pwyntiau Gwaredu Gwastraff Cemegol
- Pwyntiau Gwaredu Gwastraff Cerbydau Modur (MVWDP)
- Cyfleusterau Golchi Llestri

Ym mhob un o'r agweddau uchod, bydd y Cynghorydd Ansawdd yn penderfynu ar y sgôr sef "Ardderchog" (5 marc), "Da iawn" (4 marc), "Da" (3 marc), "Eithaf Da" (2 farc), "Derbyniol" (1 marc) neu "Gwael" (0 marc).

Os bydd unrhyw agwedd yn cael sgôr 'Gwael' yn yr asesiad, ac o ganlyniad yn sgorio dim, yna ni fydd y parc yn cael unrhyw ddyfarniad Sicrwydd Ansawdd.

Os na ddarperir cyfleuster neu agwedd, ni chaiff yr agweddau hyn eu hasesu ac ni fydd eu habsenoldeb yn cael unrhyw effaith ar y dyfarniad a roddir.

Mae'r raddfa symudol ganlynol yn nodi enghreifftiau o ansawdd, a all fod yn amlwg, er mwyn cyflawni'r lefelau amrywiol o ansawdd (1 – 5). Mae'r dangosyddion hyn yn gynrychioliadol o'r hyn y gellid ei weld ar bob lefel o ansawdd, ond nid ydynt yn gynhwysfawr nac yn rhagnodol; hynny yw, cânt eu cynnwys i gynnig awgrymiadau ar sut y gellir gwella

ansawdd, ond ni fyddant ynddynt eu hunain yn gwarantu gradd ansawdd uwch. Nid yw'r canllawiau hyn yn darparu rhestr wirio o feini prawf i nodi ansawdd.

Mae'n bwysig iawn nodi nad yw'r canllawiau hyn ar unrhyw gyfrif yn nodi, os rhoddir enghraifft benodol, na fydd unrhyw beth arall o reidrwydd yn ennill marc o'r fath.

Mae'r enghreifftiau a roddir yn aml yn gronol yn yr ystyr, er enghraifft, y bydd disgrifiad a roddir am farc 4/5 yn cynnwys elfen o adeiladu ar enghreifftiau a roddwyd o'r blaen am farciau is.

Sgôr ansawdd 1

"Derbyniol" yw'r disgrifiad o hyn fel arfer a rhaid i bopeth fod yn ddiogel ac yn lân. Rhaid i eitemau hyn, neu'r rhai heb unrhyw ansawdd ynddynt eu hunain, barhau i weithio a bod yn addas at y diben. Ni ddylai'r parc fod angen unrhyw waith trwsio na chynnal a chadw. Mae sgôr ansawdd o 1 yn fwy tebygol o adlewyrchu cyflwr presennol nag ansawdd cynhenid.

Sgôr ansawdd 2

"Eithaf Da" yw'r disgrifiad o hyn fel arfer. Gall yr eitemau hyn fod o ansawdd syml a gall yr ystod fod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, dylent fod yn gweithio'n iawn a dylai safon y glendid fod yn uchel. Mae sgôr ansawdd o 2 yn fwy tebygol o adlewyrchu cyflwr presennol nag ansawdd cynhenid.

Sgôr ansawdd 3

"Da" yw'r disgrifiad o hyn fel arfer. Nid yw'r cyfarpar yn ddrud o reidrwydd, ond rhaid iddynt fod o ansawdd da a chadarn a dangos bod rhywfaint o ofal wedi ei gymryd. Rhaid i safon y gwaith cynnal a chadw fod yn dda iawn.

Sgôr ansawdd 4

"Da iawn" yw'r disgrifiad o hyn fel arfer. Gall hyn adlewyrchu agweddau ar ansawdd sy'n ardderchog yn gynhenid, ond bod rhywfaint o ôl traul i'w weld bellach, neu bod eitemau'n dechrau mynd yn hen, neu i'r gwrthwyneb, bod yr eitemau o ansawdd da ac mewn cyflwr perffaith.

Sgôr ansawdd 5

"Ardderchog" yw'r disgrifiad o hyn fel arfer. Yn darparu'r lefelau uchaf o ansawdd o ran addurno, darnau gosod a gosodiadau a gwaith cynnal a chadw cyfleusterau ynghyd â safonau cymharol o effeithlonrwydd rheoli a gwasanaethau i westeion.

2.1 Meysydd Asesu Cyffredinol

Mae nifer o feysydd asesu a all fod yn berthnasol i wahanol leoliadau yn y parc, neu'n berthnasol mewn cyd-destunau sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd. Er hwylustod, mae'r canllawiau sy'n cwmpasu'r meysydd cyffredin hyn wedi eu cyfuno i greu safonau cyffredinol. Maent yn ategu'r meysydd hynny sydd, oherwydd eu natur, yn berthnasol i amgylchiadau penodol iawn.

Mae adran ganlynol y canllawiau yn rhoi cyngor ar y meysydd cyffredin hyn. Mae'n bwysig nodi wrth ddefnyddio'r adran hon y dylech nodi'r cyfeiriadau at ddeunyddiau, llenni ac ategolion a gorffeniad sy'n briodol i'r maes penodol rydych yn ei ystyried.

2.1.1 Glendid

Yn gymwys i'r ardaloedd canlynol, os ydynt ar gael:

- Derbynfeydd
- Siopau
- Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd
- Golchdai, Ystafelloedd Sychu
- Toiledau Cyhoeddus. Ystafelloedd Ymolchi/Cawod Hygyrch, Cyfleusterau Newid i'r Teulu a Babanod
- Hamdden
- Ceginau a Mannau Bwyta i Wersyllwyr, Byrddau Picnic, Barbeciws
- Tiroedd y Parc
- Ardaloedd Sbwriel ac Ailgylchu
- Toiledau a Chawodydd (Dynion)
- Toiledau a Chawodydd (Merched)
- Cyfleusterau Teithio

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

Er bod hyn yn 'dderbyniol', o ran glendid mae'n cynrychioli safon sy'n peri cryn bryder ac yn dangos tystiolaeth glir o esgeulustod a diffyg sylw priodol hirsefydlog. Mae unrhyw agwedd ar lendid a asesir ar y lefel hon yn debygol o gael effaith andwyol ar y dyfarniad cyffredinol a gyflawnir a gallai atal unrhyw ddyfarniad sicrwydd ansawdd rhag cael ei gadarnhau.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

Bydd y glanhau o safon gyffredinol dda, ond bydd diffyg sylw i rai ardaloedd y mae'n anodd eu cyrraedd yn amlwg ac mae hynny'n debygol o olygu na chyflawnir prosesau glanhau trylwyr rheolaidd na systematig. Y safonau a welir ar y lefel hon yw'r isafswm sy'n dderbyniol yn y

bôn a byddant bron yn sicr yn elwa ar welliant sylweddol a systematig er mwyn i ddyfarniad gael ei gynnal mewn asesiadau yn y dyfodol. Efallai y bydd diffyg sylw mewn rhai ardaloedd uchel, y tu ôl i ddrysau neu doiledau neu rwyllau awyru/echdynnu ac ati. Bydd y safon hon yn aml yn cynrychioli lefel sylfaenol dda o lendid, yn sicr gyda rhai ardaloedd y gellid eu gwella o bosibl, ond heb unrhyw agwedd yn peri pryder.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

Talu sylw rheolaidd i bob agwedd a chynnal safonau yn gyson. Ymagwedd systematig gyda thystiolaeth o safonau clir yn cael eu gosod a'u monitro. Efallai y bydd diffyg sylw mewn rhai ardaloedd uchel, ymylon, corneli ac ati neu fân broblemau cynnal a chadw fel bylbiau wedi chwythu, peiriannau tywelion neu gynwysyddion sebon gwag, a biniau gwastraff sy'n gorlifo yn yr ardaloedd perthnasol.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

Safon gyffredinol dda iawn, a sylw amlwg i fanylion yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ond heb gyflawni safon ragorol ym mhob peth. Gall hepgoriadau cymharol fân wahaniaethu rhwng safon 'Da lawn' a safon 'Ardderchog'. Gall dull systematig o lanhau pob ardal gynnwys amseroedd cau penodol ar gyfer y toiledau, arddangos rhestrau gwirio ar gyfer ymweliadau staff drwy gydol y dydd â'r toiledau a'r cyfnod cyfnewid mewn cartrefi gwyliau.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

Mewn cyflwr perffaith ac ymagwedd broffesiynol a thrylwyrdd manwl yn amlwg ym mhob agwedd. Arwynebau glân iawn, dim staeniau na marciau, na bylbiau wedi chwythu. Sylw gofalus a chyson i fanylion cymharol fân hyd yn oed yn arwain at safon sy'n ddi-fai yn y bôn.

2.1.2 Y Tu Allan/Ffryntiad

Pob agwedd allanol ar yr adeiladau yn y parc, gan gynnwys adeiladwaith, drysau, ffenestri, grisiau mynediad, toeau, gwteri a phibellau glaw. Lle mae cyfleuster yn rhan o adeilad mwy, megis canolfan siopau, neu'n rhannu ffryntiad â phwyntiau mynediad ar wahân ar gyfer pob cyfleuster, dim ond ffryntiad y cyfleuster penodol hwn a gaiff ei asesu yma. Caiff gwaith cynnal a chadw ac ymddangosiad allanol adeiladau a strwythurau nas defnyddir, neu rai at ddefnydd preifat yn y parc, gan gynnwys, er enghraifft, ysguboriau, adeiladau cyfleuster segur, gorsafoedd pwmpio, a thai dosbarthu pŵer, eu hasesu hefyd ar sail y canllawiau isod.

Yn gymwys i'r ardaloedd canlynol, os ydynt ar gael:

- Derbynfeydd
- Siopau
- Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd
- Golchdai ac Ystafelloedd Sychu
- Adloniant, Chwaraeon a Hamdden
- Gwaith Cynnal a Chadw ar Adeiladau Atodol a Rhai Nas Defnyddir

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Yn debygol o fod angen rhywfaint o sylw, ac ôl traul helaeth arno mewn manau.
- Efallai y bydd drysau wedi'u difrodi a/neu y bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw.
- Efallai fod ffenestri wedi torri neu gracio, ôl tywydd ar siliau a linteli, estyll tywydd heb eu cynnal a'u cadw'n dda, pibellau dŵr yn rhydu, gwteri a gwaith paent yn plicio neu wedi eu staenio.
- Gorchudd, teils neu lechi toi ar goll neu wedi torri.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Y prif agweddau ar du allan yr adeilad i gyd mewn cyflwr eithaf da ar y cyfan.
- Efallai fod y to'n ymddangos fel pe bai'n dal dŵr ond bod arwyddion bod angen ychydig o waith atgyweirio a chynnal a chadw.
- Efallai fod mwsogl trwchus neu gen yn tyfu ar y waliau neu'r to.
- Y gwaith coed mewn cyflwr da ar y cyfan heb lawer o ôl pydru.
- Y rhan fwyaf o'r gwaith paent yn ffres ond efallai'n dechrau dangos arwyddion o ôl tywydd neu blicio.
- Drysau a ffenestri mewn cyflwr da, ond nid yn newydd o reidrwydd.
- Dylai arwyddion o henaint a diffygion fod wedi'u cyfyngu i nifer bach o fannau heb unrhyw ddiffygion strwythurol amlwg o bwys.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Yn gyffredinol, nid yn hollol daclus efallai, ond yn rhoi argraff gyntaf dda iawn o hyd heb unrhyw agweddau anniben.
- Gwaith cerrig a gwaith paent wedi ei gynnal yn dda, a rhywfaint o effaith hindreulio naturiol i'w weld.
- Ychydig o fwsogl neu gen yn tyfu.
- Y gwaith coed i gyd mewn cyflwr da heb unrhyw arwyddion o ddifrod na phydredd.
- Y gwaith paent mewn cyflwr da, heb ôl plicio neu staenio difrifol.

- Adeiladau wedi’u gorchuddio â phren yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda, â dim ond ychydig o ôl tywydd i’w weld efallai.
- Adeiladau sydd wedi’u gwneud o ddeunydd gwahanol i’r arfer yn edrych yn dda iawn.

Marc 4 (Da Iawn) er enghraifft:

- Safon gyffredinol dda iawn lle mae’r adeiladau yn debygol o fod yn gydnaws â gweddill y parc a’r cyffiniau.
- Bydd yr adeiladau wedi eu cynnal a’u cadw’n dda i’r graddau mai dim ond mân bethau yn tynnu oddi ar y cyflwr cyffredinol sydd i’w gweld.
- Efallai y bydd rhai nodweddion allanol ychwanegol i wella’r ymddangosiad.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Safle o safon uchel, wedi ei adeiladu’n dda, a allai fod o ddiddordeb pensaernïol penodol ac sy’n gydnaws â’r amgylchedd.
- Bydd pob agwedd ar yr adeilad yn dangos sylw i fanylion.
- Dylai’r waliau a’r to fod mewn cyflwr eithriadol.
- Dim tystiolaeth o fwsogl na chen wedi hel oni bai ei fod yn rhan o ddyluniad ac arddull yr adeilad.
- Gwaith paent mewn cyflwr perffaith heb unrhyw ddifrod nac ôl traul i’w weld.
- Drysau ac ati mewn cyflwr rhagorol ac o’r safon uchaf.

2.1.3 Addurn a Lloriau

Ansawdd a chyflwr pob agwedd ar orffeniad y waliau, y nenfydau a’r lloriau yn yr ardaloedd cyhoeddus a’r ardaloedd y gall y cyhoedd eu gweld. Mae hyn yn cynnwys ystyried toiledau cwsmeriaid y gellir mynd iddynt drwy’r ardaloedd cymwys.

Yn gymwys i’r ardaloedd canlynol, os ydynt ar gael:

- Derbynfeydd
- Siopau
- Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Addurno o ansawdd sylfaenol yn dangos rhywfaint o ôl traul a difrod.
- Waliau blociau concrit cadarn ond heb eu haddurno.
- Rhywfaint o’r papur wal yn codi.
- Paent yn pylu, yn teneuo neu’n codi.
- Efallai fod y waliau plaen wedi eu paentio’n

uniongyrchol ar blastfrwrdd neu waith brics/blociau a bod y paent yn teneuo neu’n anghyson mewn manau.

- Marciau ac ôl traul yn amlwg er eu bod o safon ddigonol o hyd.
- Mesuryddion hyll yn y golwg; pibellau neu wifrau trydan.
- Lloriau mewn cyflwr digonol ar y cyfan, rhywfaint o ôl traul a staeniau i’w gweld, ond ddim yn helaeth, carpedi wedi crychu’n wael, wedi’u cyweirio’n wael â darnau eraill.
- Lloriau o ansawdd gweddol e.e. finyl tenau.
- Lloriau pren mewn cyflwr cadarn a diogel ond â llawer o farciau arnynt ac mewn cyflwr gwael neu heb unrhyw orffeniad.
- Lloriau seramig mewn cyflwr gwael ar y cyfan, teils wedi cracio, wedi torri neu ar goll.
- Concrit plaen, heb ei gaboli ond yn gadarn yn y bôn ac yn gyfan.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Os defnyddir papur wal, efallai fod ymylon y papur hwnnw’n dechrau codi neu’n edrych yn hen a gallai fod o safon sylfaenol.
- Gall waliau wedi’u paentio’n blaen fod ar arwynebau anwastad, ond yn gyffredinol maent mewn cyflwr da heb ddarnau mawr yn plicio nac olion traul amlwg.
- Waliau brisblociau neu flociau concrit gyda phaent ffres mewn cyflwr da.
- Lloriau mewn cyflwr da a/neu o ansawdd eithaf da ar y cyfan.
- Lloriau o ansawdd da yn y bôn, ond bellach yn dangos arwyddion eithaf amlwg o ôl traul a rhai marciau.
- Lloriau o ansawdd ychydig yn is ond mewn cyflwr da.
- Gall lloriau finyl neu bren mewn cyflwr rhesymol fel arfer gael eu hystyried yn lloriau o’r safon hon.
- Gall lloriau teils gynnwys rhai teils wedi cracio (ond nid yn helaeth nac yn rhydd).
- Gall lloriau concrit fod wedi eu caboli neu eu paentio ond maent yn dangos ychydig o ôl traul.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Yr addurno o safon dda ar y cyfan. Efallai fod ychydig o ôl traul, ond dim byd mawr.
- Yn ymarferol, ond yn edrych yn ffres ac wedi’i gynnal a’i gadw’n dda.
- Gwaith DIY wedi ei wneud yn iawn, ond heb ei orffen yn ‘broffesiynol’.
- Gall y teils ar y waliau fod o ansawdd gweddol ac wedi eu gosod yn weddol dda ond maent i gyd yn gyfan.

- Gallai'r waliau fod yn waliau brisblociau neu flociau concrit gyda phaent ffres mewn cyflwr da.
- Mae'n debyg y defnyddir rhywfaint o ddarluniau, lluniau neu eitemau eraill i ychwanegu at y gwaith addurno.
- Carped neu finyl o ansawdd da wedi'i osod yn dda.
- Bydd lloriau pren yn gadarn a chanddynt orffeniad priodol (farnis, seliwr ac ati) heb fawr ddim creithiau na marciau i'w gweld.
- Bydd lloriau concrit wedi eu paentio'n dda a dim ond mewn ardaloedd a ddefnyddir yn helaeth y bydd ôl traul.
- Bydd teils y llawr mewn cyflwr da iawn, ag arwyneb gwrthlithro efallai â mân ddifrod yn unig i'w weld.

Marc 4 (Da iawn) er enghraifft:

- Safon yr Addurno yn dda iawn.
- Gorffeniad cymharol syml e.e. emylsiwn, ond y gwaith o safon uchel ac wedi'i gynnal mewn cyflwr ardderchog.
- Bydd y papur wal wedi ei osod yn dda, heb unrhyw gorneli'n codi nac ymylon yn agor.
- Efallai y defnyddir lliw, lluniau/ffotograffau neu waith celf arall i wella addurno plaen, ond o safon dda yn y bôn. Prin iawn, os o gwbl, yw'r difrod neu'r marciau sydd i'w gweld.
- Gall fod o natur elfennol, ond gall gynnwys nodweddion ychwanegol a bod mewn cyflwr da iawn.
- Peth defnydd o baneli pren neu fyrddau pren lle bo'n briodol, ac mewn cyflwr da iawn.
- Safon y lloriau'n dda iawn.
- Gallant fod o ansawdd 'contract' da, ond wedi eu gosod yn dda heb unrhyw farciau amlwg, ôl traul na difrod.
- Bydd lloriau pren laminedig neu naturiol wedi eu gorffen a'u cynnal a'u cadw'n dda heb unrhyw greithiau na difrod sylweddol.
- Bydd lloriau teils (seramig, finyl, linoliwm neu garped) o safon uchel, wedi eu gosod yn dda, heb unrhyw ddifrod ac wedi eu growtio'n dda lle bo'n briodol.
- Bydd lloriau finyl gwrthlithro o ansawdd contract wedi eu gosod gan arbenigwyr ac mewn cyflwr perffaith.
- Lloriau concrit wedi'u paentio mewn cyflwr da iawn.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Addurno o safon uchel gyda defnydd tra ystyriol o liw, lluniau, printiau (e.e. golygfeydd lleol) a cherfiadau addurnol eraill.

- Lle caiff ei ddefnyddio, bydd y papur wal o safon uchel ac mewn cyflwr ardderchog heb unrhyw ymylon yn codi, nac ôl traul na difrod.
- Bydd gan waliau plaen blastr wedi ei orffen yn briodol neu arwyneb o blastrfwrdd sydd wedi cael ei sgimio a/neu ei leinio â phapur cyn ei baentio. Bydd y paent mewn cyflwr ardderchog ac wedi ei daenu'n wastad ac yn broffesiynol.
- Bydd y lloriau o safon ardderchog ac wedi eu gosod yn broffesiynol, heb unrhyw arwyddion o ôl traul nac unrhyw ddifrod.
- Gallai lloriau laminedig, lloriau pren caboledig, a lloriau parquet fod o safon ardderchog os ydynt o ansawdd cynhenid uchel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Bydd lloriau finyl gwrthlithro o ansawdd contract wedi eu gosod gan arbenigwyr ac mewn cyflwr ardderchog.
- Bydd lloriau teils (seramig, finyl, linoliwm neu garped) o'r ansawdd gorau, wedi eu gosod gan arbenigwyr, ac mewn cyflwr perffaith.

2.1.4 Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal

Yr holl ddodrefn sydd wedi eu darparu at ddefnydd y cwsmer, gan gynnwys cadeiriau, byrddau a chownteri gweini. Gosodiadau golau, gwres ac awyru. Mae hyn yn cynnwys ystyried toiledau cwsmeriaid y gellir mynd iddynt drwy'r ardaloedd cymwys. Yr holl gyfarpar arddangos a gosodiadau, silffoedd, rheseli, unedau oeri neu arddangos arbenigol, cownteri gweini/tiliau/desgiau talu. Trolïau a basgedi siopa.

Yn gymwys i'r ardaloedd canlynol, os ydynt ar gael:

- Derbynfeydd
- Siopau
- Barïau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau.
- Ansawdd gweddol e.e. cadeiriau pentyrru finyl neu 'ddesg' derbynfa dros dro.
- Rhywfaint o ymgais i gydweddu, neu gymysgedd o arddulliau gwahanol.
- Efallai fod marciau/staeniau helaeth neu amlwg ar y celfi.
- Silffoedd neu unedau arddangos sylfaenol, yn aml wedi eu gwneud gan y perchennog ei hun.

- Defnydd anniben neu anffurfiol o siliau ffenestri neu ardaloedd gwastad ad hoc eraill i arddangos nwyddau manwerthu.
- Hen gyfarpar arddangos sydd yn amlwg wedi treulio.
- Unedau arddangos oeri sydd yn rhydu, wedi eu difrodi neu'n amlwg yn mynd yn hen.
- Defnyddio oergelloedd/rhewgelloedd domestig i storio nwyddau i'w gwerthu.
- Gosodiadau golau heb unrhyw ansawdd ynddynt eu hunain.
- Gosodiadau sy'n amlwg yn hen, ac sydd â thipyn o ôl rhwd a difrod arnynt.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Darparu mwy o gelfi sydd efallai yn mynd yn hen, neu sy'n amlwg ag ôl traul arnynt, ond sydd ar y cyfan mewn cyflwr da.
- Unedau a silffoedd arddangos mewn cyflwr da ar y cyfan.
- Silffoedd ac ati a wnaed gan y perchennog ei hun o bosibl ond a adeiladwyd ac a orffennwyd i safon dda.
- Unedau arddangos oeri sy'n mynd yn hen neu o ansawdd gweddol ond sydd oll o ansawdd masnachol priodol.
- Gosodiadau o safon eithaf da, sy'n dechrau edrych ychydig yn hen ac sydd â rhywfaint o rwd arnynt.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Darnau gosod, gosodiadau a celfi o ansawdd da heb lawer o ôl traul.
- Celfi a gosodiadau sy'n ategu ei gilydd, ac sydd o safon a gwneuthuriad tebyg.
- Dylai seddi sy'n cael eu darparu, lle bo'n briodol, fod yn gyfforddus, ac os ydynt wedi'u clustogi ni ddylent fod â staen/ôl traul mawr arnynt.
- Dylai'r ddesg neu'r cownter yn y dderbynfa fod mewn cyflwr da ac o ansawdd da. Gallai fod wedi ei adeiladu'n bwrpasol ar gyfer y dderbynfa neu'n gelf annibynnol.
- Y rhan fwyaf o'r cyfarpar arddangos o safon dda.
- Peth defnydd o osodiadau o arddull ac ansawdd masnachol priodol mewn ardaloedd manwerthu, a'r cyfan mewn cyflwr da.
- Rhaid i bob uned oeri fod o ansawdd arddangos masnachol ac mewn cyflwr da.
- Silffoedd tebyg i rai Dexion gydag ychydig o rwd/traul.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Darnau gosod a gosodiadau (gan gynnwys gosodiadau golau) a celfi o safon uchel, ond nid o reidrwydd yn rhai newydd.

- Y ddesg/cownter yn y dderbynfa i fod o safon uchel, o wneuthuriad da iawn, ac yn edrych yn dda iawn. Wedi ei gwneud yn bwrpasol mae'n debyg ar y lefel hon.
- Dylai cadeiriau esmwyth cyfforddus, os darperir rhai, fod o safon dda iawn.
- Celfi a chyfarpar arddangos o safon dda iawn yn y siop.
- Yr holl stoc oeri neu rewi yn cael eu harddangos neu eu cynnig ar werth mewn unedau o ansawdd masnachol priodol mewn cyflwr da iawn.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Darnau gosod a gosodiadau a celfi o safon uchel sydd wedi cael eu gosod yn broffesiynol.
- Dylai'r celfi, gosodiadau a'r darnau gosod i gyd fod mewn cyflwr ardderchog.
- Cynnal a chadw holl gyfarpar a'r unedau arddangos mewn cyflwr perffaith.
- Gellir defnyddio arddangosfeydd arbenigol ychwanegol fel unedau oeri.
- Arddangosfeydd wedi'u teilwra gan ddefnyddio deunyddiau o ansawdd ardderchog.

2.1.5 Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru

Lefelau cyffredinol o oleuadau ac ansawdd golau. Goleuadau arddangos lle cânt eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys ystyried toiledau cwsmeriaid y gellir mynd iddynt drwy'r ardaloedd cymwys.

Yn gymwys i'r ardaloedd canlynol, os ydynt ar gael:

- Derbynfeydd
- Siopau
- Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Tiwbiau neu fylbiau fflwroleuol moel.
- Goleuo ar lefel ymarferol yn unig, ar gyfer defnydd diogel ac ymarferol, ond dim llawer mwy.
- Y lefel isaf bosibl o wres ac awyru cyfyngedig.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Goleuadau digonol, wedi eu lleoli'n briodol (gan gynnwys y brif fynedfa a phob mynedfa arall i gwsmeriaid). Efallai y bydd rhai manau heb eu goleuo cystal.
- Rhywfaint o olau ar gyfer tasgau penodol lle bo'n briodol.

- Ardaloedd i'w gwresogi i lefel dda, gyda rhywfaint o awyru, agor ffenestr neu griliau aer o leiaf.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Golau fflwroleuol â thryledwr yn lledaenu'r golau'n wastad.
- Pob bwlb i fod â chysgod neu orchudd priodol. Dim bylbiau moel.
- Lefelau da o olau effeithiol ym mhob man.
- Darperir golau effeithlon ar gyfer tasgau, e.e. uwchben y bariau, peiriannau talu, mannau gwerthu.
- Lefel dda o wres ym mhob ardal.
- Awyru effeithiol sy'n briodol i'r man dan sylw, e.e. ffaniau echdynnu mewn mannau gweini bwyd poeth ac mewn toiledau.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Yn debygol o ddefnyddio goleuadau arddangos arbenigol i ryw raddau mewn ardaloedd manwerthu.
- Gosodiadau fflworoleuol aml-diwb cilfachog mewn blychau adlewyrchu o bosibl.
- Darpariaeth wresogi effeithlon a da iawn.
- Darpariaeth awyru effeithlon a da iawn, ffaniau echdynnu a naill ai griliau neu ffenestri sy'n agor mewn mannau priodol.
- Yn debygol o gynnwys defnydd helaeth o oleuadau rhad-ar-ygni, er enghraifft LED a/neu halogen.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Gall gynnwys gosodiadau fflworoleuol aml-diwb cilfachog mewn blychau adlewyrchu.
- Goleuadau to cilfachog niferus, effeithiol o safon uchel.
- Goleuadau ardderchog ac effeithlon ar gyfer tasgau lle bo'n berthnasol.
- Defnydd helaeth ac ystyriol o oleuadau arddangos arbenigol mewn ardaloedd priodol megis mannau manwerthu neu i amlygu nodweddion pensaernïol.
- Tymheredd priodol a chysurus y gellir ei gynnal mewn unrhyw amgylchiadau.
- System awyru gwbl effeithiol ac effeithlon.

2.1.6 Gofod, Cysur a Hwylustod

Cynllun a dyluniad mannau cyhoeddus, gan ystyried maint o'i gymharu â defnydd arferol a llif cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys ystyried toiledau cwsmeriaid y gellir mynd iddynt drwy'r ardaloedd cymwys. Cynllun cyffredinol y cyfleuster, llif cwsmeriaid, lled yr eil, pa mor hawdd yw'r safle i'w ddefnyddio a mynediad

at yr holl nwyddau a arddangosir neu'r gwasanaethau sydd ar gael.

Yn gymwys i'r ardaloedd canlynol, os ydynt ar gael:

- Derbynfydd
- Siopau
- Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Lle cyfyngedig iawn.
- Defnydd helaeth arall/deuol yn effeithio'n andwyol ar gyfleuster y dderbynfa (e.e. siop).
- Ychydig o olau naturiol/dim golau naturiol.
- Amgylchedd anniben ond defnyddiol.
- Sicrhau bod pob llwybr mynediad ac eil heb unrhyw rwystrau arnynt.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Darpariaeth ddigonol ond yn debygol o fod yn ddefnydd deuol.
- Dim llawer o le ar y cownter ond dylai fod o faint ac uchder cyfforddus ar gyfer gwaith papur a gwneud taliadau.
- Ardaloedd cyfyngedig i gwsmeriaid.
- Potensial i ymwelwyr fod yn ciwio y tu allan i'r dderbynfa ar adegau prysur.
- Cynllun da a gweddol gyfleus at ddefnydd cwsmeriaid.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Gall fod yn ddefnydd deuol ond mae digon o le ar y cownter i leihau effeithiau andwyol posibl.
- Digon o le yn y dderbynfa i dderbyn a gofalu am ymwelwyr ar yr adegau y disgwylir y prysurdeb mwyaf.
- Y rhan fwyaf o'r nwyddau manwerthu wedi eu harddangos yn dda ac yn hygyrch i gwsmeriaid.
- Dylai'r mynedfydd/allanfeydd fod yn hawdd i'w defnyddio.
- Lled yr eiliau mewn ardaloedd manwerthu ac o flaen bariau yn gysurus.
- Llif cwsmeriaid da.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Yn debygol o fod yn ddesg dderbynfa ddynodedig.
- Cynllun a dyluniad â digon o le, wedi eu hystyried yn ofalus, ac yn addas i'r defnydd.
- Mewn parciau mawr neu barciau â dyddiau cyfnewid prysur iawn dylai'r dyluniad sicrhau y gellir ymdopi'n dda iawn â llif cwsmeriaid mewn ardaloedd manwerthu, y dderbynfa neu ardaloedd eraill lle darperir gwasanaeth i gwsmeriaid.

- Arddangos a chyflwyno nwyddau yn y siop mewn ffordd dda iawn.
- Rhoi ystyriaeth i leoli nwyddau manwerthu yn briodol.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Dylai pob ardal fod wedi'i dylunio ar gyfer lefel uchel o gyfforddusrwydd a hwylustod i ymwelwyr.
- Cyfleusterau wedi eu goleuo'n dda lle gwnaethpwyd cryn ymdrech i wneud yr amgylchedd yn atyniadol a'i gyflwyno'n dda.
- Yn debygol o ymgorffori nodweddion dylunio fel y gellir eu defnyddio'n hawdd e.e. desgiau lefel is (rhanedig), dolen sain ac ati, yn yr ardaloedd manwerthu, y dderbynfa neu ardaloedd eraill lle darperir gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Ardaloedd manwerthu neu fariau a chlybiau â digon o le ynddynt ac wedi eu gosod allan yn ardderchog.
- Llif cwsmeriaid ardderchog hyd yn oed ar adegau prysur.
- Yr holl nwyddau wedi eu harddangos yn atyniadol, yn briodol ac yn broffesiynol.

2.2 Y Dderbynfa a Gwasanaethau'r Dderbynfa

2.2.1 Tu Allan/Ffryntiad

(Gweler 2.1.2, tudalen 14)

2.2.2 Addurn a Lloriau

(Gweler 2.1.3, tudalen 15)

2.2.3 Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal

(Gweler 2.1.4, tudalen 16)

2.2.4 Goleuadau

(Gweler 2.1.5, tudalen 17)

2.2.5 Gofod, Cysur a Hwylustod

(Gweler 2.1.6, tudalen 18)

2.2.6 Gwybodaeth i Dwristiaid

Cyflwyniad, argaeledd ac ystod yr holl lyfrynnau, taflenni ac ati sy'n rhoi gwybodaeth am

atyniadau yn yr ardal leol. Cyfraniad personol at wybodaeth o'r fath, manylion am wasanaethau lleol, banciau, siopau ac ati.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Fawr ddim llyfrynnau a gynhyrchir yn fasnachol yn cael eu harddangos.
- Llyfrynnau yn rhydd ac wedi eu cyflwyno'n anniben.
- Rhai cyhoeddiadau yn hen.
- Ychydig o wybodaeth yn unig, neu mae'n anodd cael gafael ar wybodaeth.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Arddangosfa dda o lyfrynnau masnachol.
- Bydd y llyfrynnau a'r wybodaeth yn gyfredol, yn daclus ac wedi eu harddangos yn gyfleus.
- Ystod gyfyngedig o wybodaeth, ac yn debygol o gynrychioli gwasanaethau neu atyniadau lleol yn unig.
- Efallai ei bod yn dda fel arall, ond wedi'i lleoli yn y dderbynfa neu yn rhywle arall lle mae mynediad wedi'i gyfyngu i oriau agor.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Ystod gynhwysfawr o wybodaeth wedi ei harddangos yn dda ac wedi ei gosod yn daclus ar reseli.
- Darpariaeth dda a fydd yn sicr yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am yr ardal a gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus leol/ranbarthol. Efallai hefyd y rhoddir ystyriaeth i fynediad at wasanaethau rhyngweithiol y codir tâl amdanynt.
- Gallai hefyd gynnwys gwybodaeth am barciau sydd wedi'u rhwydweithio mewn ardaloedd eraill.
- Gwybodaeth ar gael ar bob adeg resymol o'r dydd.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Ystod gynhwysfawr o wybodaeth, wedi ei chyflwyno i safon uchel.
- Yn debygol o gynnwys rhywfaint o wybodaeth anfasnachol neu fewnbwn personol fel bwydleni o dai bwyta lleol a gwybodaeth am atyniadau neu argymhellion.
- Mynediad ardderchog at y rhan fwyaf o'r wybodaeth.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Darpariaeth ragorol a fydd yn cynnwys gwybodaeth leol a baratowyd yn bersonol, yn ogystal â'r arddangosfeydd arferol o lyfrynnau, ac argymhellion ar gyfer marchnadoedd gweithgareddau awyr agored. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys

cyngor a gwybodaeth nad ydynt wedi cael eu cynhyrchu'n fasnachol, ac nad oes cymhelliant masnachol ynghlwm wrthynt, ond sydd o ddiddordeb i westeion.

- Ar gael i westeion 24 awr.
- Gellid darparu gwybodaeth mewn ystafell benodol. Efallai hefyd y bydd byrddau a/ neu bwyntiau gwybodaeth amrywiol mewn gwahanol rannau o'r parc ac, er enghraifft, mynediad am ddim at WiFi.
- Bydd yr holl wybodaeth yn glir, yn cael ei harddangos yn daclus ac yn cael ei diweddarau.

2.2.7 Gweithdrefnau Croesawu a Chyrraedd a Gwybodaeth i Westeion ar Adeg Cyrraedd

Gweithdrefnau ar gyfer gwesteion newydd. Gwybodaeth, mapiau ac ati wrth gyrraedd. Gwybodaeth frys fel sy'n ofynnol ar gyfer y meini prawf gofynnol. Hefyd yn ystyried yr holl wybodaeth am ddefnyddio'r cyfarpar a ddarperir yn y carafanau sy'n gartrefi gwyliau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Ychydig o wybodaeth ar lafar.
- Rhoi llungopi elfennol o gynllun y safle i'r gwesteion pan fyddant yn cyrraedd.
- Cynllun y safle ddim yn gywir efallai neu wedi dyddio ychydig, ond yn ddefnyddiol ac yn ddigonol ar y cyfan.
- Dim gwybodaeth i westeion sy'n cyrraedd pan fo'r dderbynfa ar gau.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Gwybodaeth lafar yn unig ond wedi ei hategu gan gynllun da iawn o'r safle yn y dderbynfa.
- Rhoi map o'r safle, o ansawdd gweddol (e.e. efallai y bydd mewn du a gwyn), i bob gwestai wrth iddynt gyrraedd.
- Gwybodaeth eithaf da i westeion sy'n cyrraedd y tu allan i oriau'r dderbynfa, ond heb ei gosod mewn lle amlwg o bosibl.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Rhoi cynllun safle o ansawdd da i bob gwestai wrth iddynt gyrraedd, wedi ei ategu gan wybodaeth a chanllawiau llafar ychwanegol.
- Gwybodaeth glir wedi ei harddangos a'i chyflwyno'n dda i westeion sy'n cyrraedd y tu allan i oriau'r dderbynfa.

Marc 4 (Da iawn) er enghraifft:

- Rhoi cynllun safle, o ansawdd da iawn, i bob gwestai wrth iddynt gyrraedd.

- Os yw hynny'n briodol, efallai y bydd gwesteion newydd yn cael eu tywys i'w llain deithio neu eu huned ar gais.
- Pobl sydd newydd gyrraedd yn cael eu tywys i'w llain.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Ffolder yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y safle wedi ei pharatoi ar gyfer pawb sy'n cyrraedd, ac yn cynnwys cynllun o'r safle a gwybodaeth brintiedig am holl gyfleusterau'r safle.
- Sicrhau ar lafar bod pawb yn ymgyswngtu â lleoliadau'r parc pan fyddant yn cyrraedd.
- Darparu gwybodaeth ychwanegol efallai am amwynderau neu atyniadau lleol, neu docynnau derbyn gostyngol/cyfarch/breintiedig i gyfleusterau neu atyniadau lleol.
- Efallai y rhoddir cymorth i rai sydd newydd gyrraedd er mwyn lleoli/gosod carafanau teithio.
- Efallai y bydd gwesteion y fflyd llogi yn cael eu tywys i'r carafanau sy'n gartrefi gwyliau neu y bydd rhywun yn galw i'w gweld ar ôl iddynt gofrestru i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn.
- Pecyn croeso Carafán sy'n gartref Gwyliau (te, coffi, llaeth ffres ac ati).

2.3 Cyfleusterau'r Parc: Siopau

2.3.1 Y Tu Allan/Ffryntiad

(Gweler 2.1.2, tudalen 14)

2.3.2 Addurn a Lloriau

(Gweler 2.1.3, tudalen 15)

2.3.3 Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal

(Gweler 2.1.4, tudalen 16)

2.3.4 Goleuadau

(Gweler 2.1.5, tudalen 17)

2.3.5 Gofod, Cysur a Hwylustod

(Gweler 2.1.6, tudalen 18)

2.4 Cyfleusterau'r Parc: Bariau, Clybiau, Tai Bwyta a Siopau Cludfwyd

2.4.1 Y Tu Allan/Ffryntiad

(Gweler 2.1.2, tudalen 14)

2.4.2 Addurn a Lloriau

(Gweler 2.1.3, tudalen 15)

2.4.3 Darnau Gosod, Gosodiadau a Dodrefn Meddal

(Gweler 2.1.4, tudalen 16)

2.4.4 Goleuadau

(Gweler 2.1.5, tudalen 17)

2.4.5 Gofod, Cysur a Hwylustod

(Gweler 2.1.6, tudalen 18)

2.5 Cyfleusterau'r Parc: Golchdai ac Ystafelloedd Sychu

2.5.1 Y Tu Allan/Ffryntiad

(Gweler 2.1.2, tudalen 14)

2.5.2 Addurn a Lloriau

Pob agwedd ar orffeniad y waliau a'r nenfydau a'r lloriau yng nghyfleusterau'r Golchdy a'r Ystafell Sychu.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Gorffeniad amhroffesiynol ac ôl traul sylweddol neu leithder i'w weld yma ac acw.
- Teils llawr wedi cracio.
- Fynyl wedi ei osod yn wael.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Waliau concrit wedi eu paentio, ac arwyneb anwastad.
- Llawr teils chwarel wedi eu difrodi neu eu hanffurfio ychydig.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Waliau emylsiwn plaen mewn cyflwr da.
- Waliau â theils drostynt i gyd, heb fawr ddim

- difrod yn amlwg, a theils o ansawdd gweddol.
- Waliau blociau concrit wedi eu paentio mewn cyflwr da.
- Waliau wedi eu chwipio, neu wedi eu paentio â phaent gweddol, ac mewn cyflwr da iawn.
- Llawr teils chwarel, dim difrod.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Waliau emylsiwn â chefnfwrdd (teils neu wal wlyb) mewn cyflwr da iawn.
- Llawr â theils drosto i gyd, neu lawr gwrthlithro, o safon uchel, wedi ei osod yn dda.
- Lloriau concrit wedi'u paentio mewn cyflwr da iawn.
- Lloriau concrit wedi eu paentio ac mewn cyflwr da iawn.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Leinin wal wlyb ym mhob man.
- Teils o ansawdd ardderchog.
- Llawr gwrthlithro o ansawdd ardderchog wedi ei osod yn broffesiynol ac mewn cyflwr perffaith.

2.5.3 Goleuadau a Dulliau Awyru

Lefelau goleuo ac awyru ym mhob rhan o'r cyfleuster.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Goleuo ar y lefel isaf ar gyfer defnydd diogel ac ymarferol.
- Tiwbiau fflworoleuol neu fylbiau unigol heb eu gorchuddio.
- Awyru cyfyngedig.
- Nid oes cysylltiad awyru uniongyrchol rhwng y peiriannau sychu a'r tu allan.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Goleuo digonol yn y rhan fwyaf o ardaloedd ar gyfer defnydd cyfforddus, ond efallai na fydd rhai ardaloedd wedi eu goleuo'n dda.
- Tiwbiau fflworoleuol heb orchudd drostynt yn darparu lefel dda o olau.
- Ffenestr lwfrog ar gyfer awyru.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Tiwbiau fflworoleuol a thryledwyr wedi eu gosod er mwyn darparu golau effeithiol ym mhob rhan o'r cyfleuster.
- Pob peiriant sychu â fent allanol.
- Ffenestri lwfrog neu rwyllau aer.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Golau wedi ei wasgaru'n dda.

- Y prif ardaloedd tasgau i gyd wedi eu goleuo'n llawn â goleuadau nenfwd a/neu waliau.
- Gosodiadau golau pared wedi eu lleoli'n briodol, mewn cyflwr ardderchog ac yn defnyddio bylbiau rhad-ar-ynni.
- Ffaniau echdynnu yn ogystal â pheiriannau awyru allanol.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Y prif ardaloedd tasgau i gyd wedi eu goleuo'n llawn.
- Y goleuadau yn cael eu rheoli â synhwyrdd efallai e.e. PIR.
- Y cyfleuster wedi'i awyru'n llawn.

2.5.4 Darnau Gosod a Gosodiadau

Ansawdd a chyflwr pob darn gosod a gosodiad, gan gynnwys bachau, seddi, gweithfannau, gosodiadau golau a gwres, basgedi golch. (Lle caiff y rhain eu darparu cânt eu hystyried, ond nid yw hyn yn awgrymu bod yn rhaid iddynt fod yn bresennol).

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Gosodiadau golau yn edrych yn hen neu wedi rhydu.
- Mae gosodiadau golau wedi eu gosod ond efallai fod y gysgodlen neu'r gorchudd wedi torri.
- Mae silffoedd/gweithfannau mewn cyflwr derbyniol ond efallai fod ôl traul.
- Mae sinciau mewn cyflwr derbyniol, efallai fod tapiau yn rhydu a bod y dangosyddion ar goll.
- Seddi plastig o ansawdd sylfaenol.
- Rhai bachau wedi torri.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Gosodiad golau o ansawdd sylfaenol heb gysgodlen o bosibl.
- Gall y gosodiad golau fod yn hen neu ag ôl traul arno.
- Y silffoedd/gweithfannau mewn cyflwr eithaf da.
- Seddi o ansawdd eithaf da, seddi pren o bosibl.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Gosodiadau golau, er nad ydynt yn newydd, yn dal mewn cyflwr da ar y cyfan.
- Silffoedd, gweithfannau a sinciau oll mewn cyflwr da.
- Seddi o ansawdd da sy'n weddol gyfforddus.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Gosodiadau golau o ansawdd da iawn, heb ddim ôl traul, a ddim yn edrych yn hen.
- Silffoedd a gweithfannau o ansawdd da iawn.
- Dylai'r holl gyfarpar a ddarperir fod yn gyfan, gan gynnwys bachau, seddi, basgedi golch, byrddau smwddio ac ati.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Mae'r gosodiadau golau o'r ansawdd gorau, goleuadau to halogen cilfachog neu oleuadau rhad-ar-ynni yn gweithio â synhwyrddion. Mae pob gosodiad mewn cyflwr ardderchog.
- Os darperir gosodiadau ychwanegol dylent fod o ansawdd cynhenid da heb ôl traul.

2.5.5 Cyfarpar

Ansawdd a chyflwr yr holl gyfarpar golchi, gan gynnwys peiriannau golchi, troi a sychu, cyfleusterau smwddio a gwasgwyr dillad. (Lle caiff y rhain eu darparu cânt eu hystyried, ond nid yw hyn yn awgrymu bod yn rhaid iddynt fod yn bresennol).

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Mae'r cyfarpar, er ei fod yn gweithio, yn dangos llawer iawn o ôl traul, fel rhwd neu ddifrod arall, ac yn dechrau edrych yn hen.
- Tipyn o ôl deifio ar waelod yr haearn smwddio, a thipyn o ôl traul ar orchudd y bwrdd smwddio.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Peiriannau o ansawdd domestig mewn cyflwr eithaf da.
- Cyfarpar yn dangos rhywfaint o ôl traul.
- Gwaelod yr haearn smwddio a'r bwrdd smwddio mewn cyflwr eithaf da â rhywfaint o ôl traul.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Peiriannau masnachol hŷn mewn cyflwr da.
- Peiriannau o ansawdd domestig mewn cyflwr da.
- Gwaelod yr haearn smwddio a'r bwrdd smwddio mewn cyflwr da iawn, ond heb fod o ansawdd cystal efallai.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Cyfarpar masnachol mewn cyflwr da iawn.
- Dylai'r cyfarpar domestig fod mewn cyflwr da iawn.
- Ychydig o ôl traul ar rai cyfarpar.
- Haearn smwddio o ansawdd da iawn a'r bwrdd smwddio mewn cyflwr perffaith.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Y cyfarpar masnachol i gyd mewn cyflwr ardderchog, heb unrhyw ddifrod.
- Y cyfarpar ychwanegol i gyd o safon uchel â phwyslais clir ar hwylustod i gwsmeriaid.

2.5.6 Gofod, Cysur a Hwylustod

Cynllun y cyfleuster, llif cwsmeriaid, pa mor hawdd ydyw i gyrraedd peiriannau a chyfarpar. Gwneud i gwsmeriaid deimlo'n gyfforddus pan fyddant yn defnyddio'r cyfleuster.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Mae pobl yn gallu defnyddio'r peiriannau a'r cyfarpar ond mae'n lletchwith gwneud hynny.
- Mae'r lle yn gyfyng ac os bydd llawer o bobl yn defnyddio'r cyfleuster ar yr un pryd yna bydd yn fwy anodd cyrraedd y peiriannau a'r cyfarpar.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Lle ychydig yn gyfyng mewn rhai manau.
- Swyddogaeth ddeuol o bosibl, er enghraifft golchi llestri.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Gallu cael at yr holl gyfarpar yn gymharol hawdd.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Digon o le a silffoedd rhwng cyfarpar fel sinciau.
- Digonedd o le i ddefnyddio'r cyfleuster gan gynnwys byrddau smwddio.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Cyfleuster wedi ei osod allan yn ardderchog, yn cynnwys gofod arwyneb gwastad addas i blygu dillad.
- Gallu cyrraedd at yr holl gyfarpar yn hawdd hyd yn oed pan fydd y cyfleuster yn brysur.

2.6 Hamdden a Chwaraeon

2.6.1 Y Tu Allan/Ffryntiad

(Gweler 2.1.2, tudalen 14)

2.6.2 Cyfleusterau (Dan Do)

Pob agwedd ar yr addurno, lloriau, golau, gwres, awyru, gosodiadau a celfi, arwynebau chwarae a rhwydi cwrt neu strwythurau eraill sy'n gysylltiedig â'r terfyn allanol. Mae hyn yn

cynnwys ystyried toiledau'r cwsmeriaid a'r cyfleusterau newid a gwylio yr eir iddynt drwy'r ardaloedd cymwys.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Arwynebau chwarae caled sy'n mynd yn hen lle byddai arwyneb chwarae diogel modern yn fwy priodol.
- Gellir defnyddio'r cyfarpar a'r cyfleusterau, ond mae ôl difrod arnynt e.e. rhwydi wedi rhwygo, gosodiadau'n rhydd.
- Llawer o ôl traul ar farciau'r cwrt.
- Addurno, lloriau a gosodiadau yn dangos ôl traul sylweddol.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Arwynebau chwarae priodol ond ôl traul a rhywfaint o ddifrod yn amlwg.
- Addurno, lloriau a gosodiadau mewn cyflwr da ar y cyfan, ond yn dangos rhywfaint o ôl traul, neu'n mynd yn hen, neu o ansawdd gweddol yn y bôn.
- Rhywfaint o beiriannau/cyfarpar ddim yn gweithio.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Addurno mewn emylsiwn plaen a'r cyfan mewn cyflwr da.
- Lloriau o ansawdd gweddol, ychydig o farciau neu ôl traul.
- Arwynebau chwarae mewn cyflwr da ac o ansawdd da.
- Yr holl gyfarpar atodol mewn cyflwr da, â rhywfaint o ôl traul, a'r cyfan yn gweithio ond efallai'n dangos ychydig o ôl traul.
- Goleuadau mewn cyflwr da mewn ardaloedd priodol.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Ansawdd yr addurno, y lloriau a'r gosodiadau yn dda iawn.
- Pob arwyneb chwarae a chyfarpar cysylltiedig mewn cyflwr da iawn a heb unrhyw ddifrod arnynt.
- Y cyfleuster yn amlwg o safon uchel.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Safonau ardderchog yn amlwg ym mhob agwedd ar y cyfleuster.

2.6.3 Cyfarpar (Dan Do)

Yr holl gyfarpar chwarae neu hamdden yn sefydlog neu'n gludadwy, am ddim neu i'w llogi.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Peiriannau a chyfarpar yn gweithio ar y cyfan, ond efallai y bydd nifer o eitemau ddim yn gweithio dros dro, ac y bydd angen eu cynnal a'u cadw neu eu trwsio.
- Cyfarpar yn debygol o ddangos cryn dipyn o ôl traul.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Y cyfarpar i gyd mewn cyflwr gweithredol da.
- Y cyfarpar yn debygol o ddangos llawer iawn o ôl traul.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Y cyfarpar i gyd mewn cyflwr da ar y cyfan.
- Ôl traul neu'n mynd yn hen.
- Gall y cyfarpar fod mewn cyflwr da iawn ond efallai y bydd yn dangos rhywfaint o ôl traul.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Y cyfarpar i gyd mewn cyflwr da iawn heb unrhyw ôl traul nac unrhyw arwydd ei fod yn mynd yn hen.
- Cyfarpar o safon uchel wedi ei gynnal a'i gadw, ei wasanaethu neu ei lanhau'n gywir fel sy'n briodol ar gyfer pob defnyddiwr.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Y peiriannau a'r cyfarpar i gyd o'r ansawdd gorau ac mewn cyflwr perffaith.

2.6.4 Cynllun a Hwylustod (Dan Do)

Cynllun a dyluniad y cyfleusterau i gyd, gan gynnwys y cyfleusterau newid a gwyllo, llif cwsmeriaid, pa mor hawdd ydyw i gael gafael ar y cyfarpar. Mae hyn yn cynnwys ystyried toiledau'r cwsmeriaid a'r cyfleusterau newid a gwyllo yr eir iddynt drwy'r ardaloedd cymwys.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Mae'r cyfarpar ar gael i'w ddefnyddio ond mae wedi ei osod mor agos at gyfarpar arall fel bod yn rhaid i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol ac yn ystyriol o bresenoldeb ei gilydd.
- Mae'r cyfarpar wedi ei osod yn anghyfleus wrth fynedfa brysur, ar lwybrau neu bwyntiau mynediad.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Mynediad da at y rhan fwyaf o'r cyfarpar.
- Gall rhywfaint o'r cyfarpar neu'r cyfleusterau fod mewn lleoliad llai na delfrydol ond, serch hynny, maent ar gael i'w defnyddio.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Mynediad i ardaloedd troednoeth wedi'i reoli.
- Y cyfarpar a'r peiriannau wedi eu gosod yn y fath fodd fel eu bod yn atal tagfeydd a gwrthdaro.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Digon o seddi i wylwyr.
- Yr holl gyfarpar, peiriannau chwarae ac ati mewn lleoliadau da iawn fel bod modd gwneud defnydd llawn ohonynt a'u mwynhau.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Ymdrech amlwg i wneud yr ardal mor atyniadol â phosibl i ddefnyddwyr a gwylwyr.

2.6.5 Cyfleusterau (Awyr Agored)

Ffens derfyn, seddi a byrddau, biniau sbwriel, arwynebau nad ydynt ar gyfer chwarae arnynt ac arwynebau chwarae. Mae hyn yn cynnwys ystyried toiledau'r cwsmeriaid a'r cyfleusterau newid a gwyllo yr eir iddynt drwy'r ardaloedd cymwys.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Arwynebau chwarae neu arwynebau eraill yn anniben ac yn dangos ôl traul, a chwyn yn tyfu yno.
- Difrod neu ôl traul yn amlwg ar osodiadau atodol megis ffensys, seddi, biniau sbwriel ac ati.
- Arwynebau chwarae meddal sy'n mynd yn hen neu ddaear galed.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Holl osodiadau'r cyfleuster yn gweithio ond rhywfaint o ôl traul yn amlwg neu arwyddion eu bod yn mynd yn hen.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Gosodiadau'r cyfleuster mewn cyflwr da ar y cyfan.
- Gallant fod o ansawdd gweddol ond mewn cyflwr da.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Rhai o'r ffensys neu'r seddi ag ychydig o gen neu fwsogl yn tyfu arnynt ond heblaw am hynny maent o safon uchel ac mewn cyflwr da iawn.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Seddi, ffensys, arwynebau ar gyfer chwarae arnynt, a rhai nad ydynt ar gyfer chwarae arnynt, o'r ansawdd gorau a'r cyfan mewn cyflwr perffaith.

2.6.6 Cyfarpar (Awyr Agored)

Yr holl gyfarpar chwarae neu hamdden yn sefydlog neu'n gludawy, am ddim neu i'w llogi.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Gellir defnyddio'r cyfarpar a'r cyfleusterau, ond mae ôl difrod arnynt e.e. rhwydi wedi rhwygo, gosodiadau'n rhydd.
- Llawer o ôl traul ar farciau'r cwrt.
- Cyfarpar chwarae llac neu rydd yn bresennol ond mae'n rhaid iddynt barhau i fod yn ddiogel.
- Cyfarpar wedi hindreulio'n helaeth, yn fwsoglyd neu â chen yn tyfu arno.
- Tystiolaeth o fandaliaeth hirsefydlog, graffiti neu ddifrod arall.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Y cyfarpar i gyd mewn cyflwr gweithredol da.
- Y cyfarpar yn debygol o ddangos llawer iawn o ôl traul.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Y cyfarpar i gyd mewn cyflwr da ar y cyfan.
- Ychydig o ôl traul neu mae'n mynd yn hen. Efallai y ceir ychydig o rwd/ôl traul/pylu.
- Gall y cyfarpar fod mewn cyflwr da iawn ond o ansawdd gweddol.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Y cyfarpar i gyd mewn cyflwr da iawn heb unrhyw ôl traul nac unrhyw arwydd ei fod yn mynd yn hen.
- Cyfarpar o safon uchel wedi ei gynnal a'i gadw, ei wasanaethu neu ei lanhau'n gywir fel sy'n briodol ar gyfer pob defnyddiwr.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Yr holl gyfarpar chwarae a hamdden o'r ansawdd gorau ac mewn cyflwr perffaith.

2.6.7 Cynllun a Hwylustod (Awyr Agored)

Cynllun a dyluniad y cyfleuster, llif cwsmeriaid, pa mor hawdd ydyw i gyrraedd cyfarpar. Gwneud i gwsmeriaid deimlo'n gyfforddus pan fyddant yn defnyddio'r cyfleuster.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Fawr ddim ymdrech i guddio ardaloedd chwarae plant oddi wrth ffyrdd cyfagos.
- Y ddarpariaeth leiaf o ran cysur gwylwyr (seddi, biniâu sbwriel ac ati).
- Cyfarpar chwarae yn agos at ei gilydd.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Pellter derbyniol oddi wrth ffyrdd ond dim ffens na darpariaeth i wylwyr.
- Lle digonol rhwng cyfarpar fel siglenni a sleidiau.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Y cyfarpar a'r peiriannau wedi eu gosod yn y fath fodd fel eu bod yn atal tagfeydd a gwrthdaro.
- Digon o seddi i wylwyr.
- Dim ffens o amgylch yr ardal o bosibl.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Yr holl gyfarpar mewn lleoliadau da iawn fel y gellir eu defnyddio'n llawn a'u mwynhau.
- Ardal wyllo wedi ei thirlunio efallai.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Cyfleuster chwarae diogel i blant naill ai gryn bellter oddi wrth unrhyw ffordd neu â ffens o'i amgylch gydag allanfeydd bob hyn a hyn.
- Yr holl gyfarpar â digon o le rhyngddo fel y gall plant symud yn hawdd ac yn ddiogel rhwng y cyfarpar.
- Ymdrech amlwg i wneud yr ardal mor atyniadol â phosibl i ddefnyddwyr a gwylwyr.

2.7 Tiroedd a Chyfleusterau'r Parc

2.7.1 Goleuadau

Gosodiadau golau allanol a darpariaeth o ran goleuadau yn y parc, gan gynnwys ffyrdd, llwybrau, rampiau, grisiau a'r tu allan i adeiladau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Goleuadau wedi eu darparu yn unol â gofynion y meini prawf sylfaenol.
- Llawer o'r gosodiadau golau yn hen neu wedi eu difrodi.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Goleuadau wedi eu darparu mewn mannau allweddol yn y parc, er enghraifft cyffyrdd.
- Rhywfaint o oleuadau yn ychwanegol at y gofynion sylfaenol ond yn eithaf cyfyngedig.
- Gosodiadau golau yn dechrau mynd yn hen neu'n hindreulio.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Goleuadau o safon dda iawn yn y rhan fwyaf o ardaloedd y parc.
- Pob ramp a grisiau wedi eu goleuo'n addas.

- Gall y goleuadau yn y blociau cyfleusterau fod yn gweithio â PIR neu synwryddion symud eraill.
- Gosodiadau golau mewn cyflwr da ar y cyfan.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Pob un o ardaloedd y parc wedi eu goleuo'n briodol ac yn dda.
- Defnyddio ystod o osodiadau golau i sicrhau goleuadau priodol mewn lleoliadau gwahanol.
- Y rhan fwyaf o'r gosodiadau golau mewn cyflwr da iawn.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Defnyddio'r ansawdd gorau o osodiadau golau a thechnoleg goleuadau yn briodol ym mhob un o ardaloedd y parc.
- Bydd yr holl oleuadau yn rhai rhad-ar-ynni.
- Yr holl gosodiadau golau mewn cyflwr ardderchog.

2.7.2 Arwyddion

Pob hysbysiad ac arwydd mewnol ac allanol, gan gynnwys arwyddion mynediad, cyfeiriol, cyfarwyddol ac arwyddion y cyfleusterau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- System gyfyngedig o arwyddion cyfeiriol na fydd yn cynnwys gwybodaeth am bob ardal o bosibl.
- Arwyddion ag ôl traul amlwg arnynt ac yn mynd yn hen.
- Darpariaeth gyfyngedig, anghyson a dryslyd.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- System eithaf da o arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth gyfeiriol ddefnyddiol o amgylch y cyfleuster.
- Arwyddion mewn cyflwr eithaf da ond efallai'n dangos ychydig o ôl traul neu'n dechrau mynd yn hen.
- Darpariaeth ddigonol ar gyfer maint y safle gydag arwyddion sy'n hawdd eu dilyn.
- Mae'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei darllen.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- System dda o arwyddion cyfeiriol.
- Ymdrechion wedi'u gwneud i ddefnyddio brand neu thema gorfforaethol.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Arwyddion o safon uchel, mewn cyflwr da iawn.

- Arwyddion wedi'u lleoli'n strategol gan roi llwybr hawdd ei ddilyn o'r dderbynfa i bob ardal berthnasol.
- Mae'r wybodaeth yn glir, wedi ei gosod allan yn dda ac yn gyfredol.
- Arwyddion cyfeiriol da iawn sy'n hawdd eu darllen, eu dilyn a'u defnyddio.
- Arwyddion da iawn wedi'u darparu ar gyfer maint y safle, a'u harddangos yn amlwg.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Defnydd arloesol o ddyluniad a chynllun gan gynnwys y defnydd o themâu.
- Defnydd cyson o frand a hunaniaeth gorfforaethol.
- Defnydd o ieithoedd tramor neu symbolau.

2.7.3 Mannau Ymgynnull Tân

Pob cyfleuster pwynt tân yn cynnwys, er enghraifft, diffoddyddion tân, pibelli dŵr, hydrantau, hysbysiadau tân a chlychau a thrionglau rhybuddio rhag tân.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Yr holl gyfarpar wedi ei gynnal a'i gadw'n gywir.
- Pwyntiau a blychau mewn cyflwr dadfeiliedig.
- Cen neu chwyn yn tyfu'n helaeth arnynt.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Hen bwyntiau tân.
- Y rhan fwyaf o'r hysbysiadau tân ar goll neu'n aneglur.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Diffoddwyr tân a/neu bibelli dŵr â gorchuddion diddos mewn cyflwr da.
- Rhai hysbysiadau tân ar goll neu'n aneglur.
- Blychau pren wedi'u gwneud â llaw i safon uchel, newydd eu paentio ac yn ddiogel rhag y tywydd.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Pwyntiau tân gwahanol o ran arddull ond mewn cyflwr da iawn ar y cyfan.
- Blychau hyn ond newydd eu paentio.
- Blychau newydd, ond rhai hysbysiadau tân ar goll.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Pob pwynt mewn cyflwr ardderchog.
- Arwyddion clir o safon uchel ar bob pwynt.
- Pob pwynt wedi ei osod yn dda ac yn gadarn.

2.7.4 Arwynebau Ffyrdd a Llwybrau

Pob ffordd gyhoeddus a llwybr drwy'r parc, gan gynnwys y brif fynedfa, ond heb gynnwys y maes parcio ceir/cyfleuster cyrraedd yn hwyr.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Pob ffordd a thramwyfa mewn cyflwr derbyniol ond â rhai arwynebau anwastad, tyllau mawr, difrod helaeth i'r arwyneb neu rigolau mawr.
- Gallant fod yn dderbyniol fel arall ond â rhannau cymharol fyr â llethrau serth iawn neu mewn cyflwr gwael.
- Dim ond mewn un cyfeiriad y gall y traffig symud ac nid oes digon o fannau pasio ar hyd y ffordd.
- Datblygwyd y llwybrau drwy ddefnydd anffurfiol ac ni chânt eu cynnal a'u cadw na'u harwynebu.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Pob ffordd a thramwyfa mewn cyflwr derbyniol.
- Rhai tyllau bach neu ddifrod i'r arwyneb/rhigolau neu arwynebau ffyrdd anwastad.
- System ddraenio resymol.
- Dim ond mewn un cyfeiriad y gall traffig symud, ond crëwyd rhai mannau pasio ac maent wedi eu marcio'n glir neu mae system un ffordd effeithiol wedi ei harwyddo'n glir ar waith.
- Gall y llwybrau ymddangos yn anffurfiol ond ceir rhywfaint o dystiolaeth o waith cynnal a chadw a thystiolaeth y rhoddir sylw i'r prif lwybrau i gerddwyr.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Mae'r ffyrdd mewn cyflwr da ar y cyfan, a chaiff yr arwynebau ffyrdd eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae system ddraenio dda ar gael.
- Mae lled y brif ffordd yn addas i draffig sy'n symud i'r ddau gyfeiriad (naill ai drwy dramwyfa ddwy ffordd neu drwy fannau pasio penodol neu drwy system un ffordd hollol effeithiol).
- Gallant fod yn dda heblaw am rai darnau sydd mewn cyflwr gwaeth ac o ansawdd is.
- Bydd ymylon y ffyrdd yn daclus ar y cyfan er nad ydynt o reidrwydd wedi eu diffinio'n ffisegol.
- Bydd pob ffordd a thramwyfa o led a radiws cromlin cyffredinol (lle bo'n gymwys) sy'n golygu y gellir gyrru cerbydau perthnasol yn ddiogel ac yn hawdd arnynt.

- Mae twmpathau arafu wedi'u marcio'n dda.

Marc 4 (Da iawn) er enghraifft:

- Mae'r dramwyfa o ansawdd da iawn (yn briodol ar gyfer y lleoliad a'r amgylchedd) a chaiff yr holl arwynebau ffordd eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da iawn.
- Mae'r ymylon ffordd yn debygol o fod wedi eu diffinio'n glir a'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Twmpathau arafu wedi eu marcio'n glir.
- Mae llwybrau wedi'u cynnal a'u cadw i safon dda iawn ynghyd â system ddraenio dda.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Mae pob ffordd a llwybr drwy'r parc o ansawdd ardderchog ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Pob agwedd ar unrhyw lwybr neu ffordd yn y parc mewn cyflwr ardderchog neu o ansawdd ardderchog.

2.7.5 Gwaredu Sbwriel a Darpariaeth Ailgylchu

Y ddarpariaeth ar gyfer gwaredu sbwriel. Biniau ar olwynion, biniau lludw, sgipiau a chynwysyddion tebyg i 'Sulo'. Cyflwyno a chynnal a chadw cyrtiau. Mae'r agwedd hon hefyd yn ymgorffori unrhyw ddarpariaeth ailgylchu, ansawdd y cyfleuster a ddarperir ganddi, ei hystod a'i hargaeledd. Os nad oes darpariaeth ailgylchu ar gael am resymau ymarferol neu logistaidd, ystyrir y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth i ymwelwyr am opsiynau ailgylchu.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Darpariaeth sylfaenol.
- Llawer o finiau llawn.
- Fawr ddim ymdrech i guddio'r sbwriel.
- Biniau unigol i'w gweld yn amlwg.
- Biniau neu gynwysyddion rhwylllog heb eu cuddio.
- Yn anodd mynd atynt neu'n anodd eu defnyddio e.e. dringo grisiau uchel i gael gwared ar sbwriel.
- Gadewir bagiau sbwriel penodol sydd i'w casglu mewn mannau gwahanol o amgylch y parc heb ddim yn eu diogelu na'u cuddio.
- Darpariaeth ailgylchu sylfaenol.
- Un man ailgylchu (yn enwedig mewn parciau mwy).
- Dim llawer o ailgylchu ar y safle, os o gwbl, a dim cyfarwyddiadau ar gyfer darpariaeth leol.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Darpariaeth eithaf da.
- Rhywfaint o ymdrech i guddio sbwriel.
- Mae'r biniau ar olwynion, sgipiau neu sgipiau bach o ansawdd eithaf da ac yn cynnwys caeadau.
- Ychydig o chwyn yn tyfu yn ardal y biniau.
- Nid yw rhai o'r biniau wedi eu cuddio.
- Rhywfaint o wastraff mewn bagiau rhydd yn ardaloedd y biniau.
- Ailgylchu gwydr a chaniau o leiaf.
- Ailgylchu sylfaenol ar gyfer un neu ddau o ddeunyddiau mewn lleoliad(au) cyfleus.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Caiff biniau lludw neu gynwysyddion eu gosod mewn rhyw fath o le caeedig neu gwrth.
- Mae gan y lle caeedig/cwrt waelod cadarn y gellir ei olchi.
- Gall rhywfaint o fwsogl neu chwyn dynnu oddi ar gyfleuster sy'n dda iawn fel arall.
- Diogelir y sbwriel a gaiff ei storio rhag anifeiliaid ac adar.
- Gallai fod yn dda iawn pe bai'n cael ei wagio'n fwy rheolaidd.
- Darpariaeth ailgylchu ar gyfer detholiad o dri neu fwy o ddeunyddiau yn y prif gwrth/gyrtiau ailgylchu yn y parc.
- Fel arall, cyfarwyddiadau at y lleoliad ailgylchu agosaf wedi eu harddangos yn glir yn y brif ardal wybodaeth neu yn y dderbynfa.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Ardaloedd y biniau/cynwysyddion wedi eu cuddio'n dda.
- Dim chwyn na mwsogl yn tyfu o amgylch y biniau nac ardaloedd y biniau.
- Cesglir y bagiau sbwriel penodol yn ddyddiol o'r llain neu'r babell.
- Biniau sbwriel cyffredinol wedi eu gosod o amgylch y parc, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cael eu gwagu'n rheolaidd.
- Darpariaeth ailgylchu ar gyfer pedwar neu ragor o ddeunyddiau fel arfer yn y prif gwrth/gyrtiau ailgylchu yn y parc.
- Os nad oes darpariaeth ailgylchu yn y parc yna bydd arwyddion clir ym mhob man sbwriel yn nodi lle mae'r cyfleusterau ailgylchu agosaf a beth yw'r polisi ailgylchu.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Ymdrech effeithiol i wneud cyrtiau ailgylchu/ lleoedd caeedig mor atyniadol â phosibl.

- Yr holl gyfleusterau ailgylchu o safon uchel iawn ag arwyddion clir ac anogaeth gref i ailgylchu ym mhob man ailgylchu.
- Cymhorthion ychwanegol megis peiriannau gwasgu caniau a sachau casglu ar gael.
- Os nad oes darpariaeth ailgylchu ar gael yna dylid gosod arwyddion clir, annog pobl i ailgylchu a chael polisi ffurfiol.

2.7.6 Byrddau Picnic, Seddi yn yr Awyr Agored, Barbeciws, Ceginau a Mannau Bwyta i Wersyllwyr

Barbeciws a godwyd i'r pwrpas a cheginau i wersyllwyr i'w defnyddio gan gwsmeriaid (nid ydynt yn cynnwys barbeciws a ddefnyddir yn unswydd gan reolwyr ar gyfer gweithgareddau awyr agored e.e. o amgylch ardal y pwll nofio).

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Cyfleusterau yn gweithio ond wedi'u cynnal a'u cadw'n wael.
- Gall y byrddau picnic edrych yn hen iawn, mae cen yn tyfu arnynt, maent yn pydru neu'n hindreulio.
- Mae'r barbeciws wedi rhydu ac mae ôl traul arnynt.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Cyfleuster da fel arall ond ystyrir bod y barbeciws wedi'u lleoli yn rhy agos at garafanau eraill a gall y mwg neu'r sŵn darfu arnynt.
- Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar yn dechrau mynd yn hen, ac mae ychydig o ôl traul, hindreulio neu ddifrod arnynt.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Mae'r byrddau picnic yn gadarn ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Lloches(i) coginio, dim cyfarpar ond mae'r wynebâu dur gloyw mewn cyflwr da ac wedi'u cysgodi rhag y tywydd.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Mae cyfarpar barbeciw neu fyrddau/ cadeiriau mewn ardaloedd amhenodol o amgylch y parc yn lân, wedi eu hadeiladu'n dda a'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Lle darperir barbeciws mae seddi ar gael hefyd.
- Caiff pob cyfleuster ei gynnal a'i gadw'n dda ac i safon uchel.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Gall gynnis cyfleuster cegin i wersyllwyr dan do â digon o gyfarpar ynddo, llawr gwrthlithro, sinciau dur gloyw ac ardal ag arwynebau gwaith â chefnwrdd dur gloyw. Wedi ei oleuo â bylbiau rhad-ar-ygni. Digon o feinciau a system awyru dda.
- Llochesi coginio o safon uchel, gyda digon o le ynddynt, wedi eu dylunio'n dda ac yn atyniadol i'w defnyddio.
- Cyfleusterau barbeciw wedi eu dylunio a'u cynnal a'u cadw i safon ardderchog.
- Gallai meinciau/offer picnic o ansawdd da fod yn gynhyrchion o ansawdd da wedi'u gorffen â llaw neu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

2.7.7 Tirlunio

Cwmpas a maint y gwaith plannu er mwyn darparu amgylchedd amrywiol. Dylid ystyried defnyddio nodweddion naturiol, carreg, pren ac ati.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Y tir yn daclus ond dim ymdrech wirioneddol i dirlunio.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Rhywfaint o ymdrech i dirlunio.
- Rhai nodweddion naturiol wedi eu cadw neu goed neu lwyni a blannwyd gan y perchennog ei hun.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Tirlunio naturiol ar y cyfan.
- Rhywfaint o ymdrech i wella'r parc drwy blannu coed a llwyni ac ati i guddio adeiladau neu garafanau.
- Rhywfaint o ymdrech i wneud y defnydd gorau o nodweddion naturiol.
- Rhywfaint o dirlunio ffurfiol.
- Gwaith plannu newydd wedi ei wneud ond heb aeddfedu eto.
- Defnyddio tybiau blodau/basgedi crog ac ati i wella prif adeiladau.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Darparu nodweddion megis pyllau, tybiau blodau, byrddau adar, ac ardaloedd ar gyfer seddi.
- Defnyddiwyd deunyddiau lleol naturiol fel carreg, pren ac ati yn dda iawn.
- Rhoddwyd ystyriaeth i ffawna a fflora lleol a'u gwarchod, gan gynnwys nodweddion dŵr.

- Crëwyd 'clustogfeydd' cadwraeth a ddiffiniwyd yn benodol.
- Gweunydd ac ardaloedd o flodau gwyllt atyniadol a gaiff eu rheoli'n dda.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Nodweddion tra ystyriol ac atyniadol ym mhob rhan o'r parc.
- Defnydd helaeth o focsffestri, basgedi crog, tybiau blodau ac ati.
- Tirlunio a phlannu planhigion a choed sydd o fudd penodol i fywyd gwyllt.
- Tirlunio aeddfed.

2.7.8 Gwaith Cynnal a Chadw ar Adeiladau Atodol neu Adeiladau Nas Defnyddir

(Gweler 2.1.2, tudalen 14)

2.7.9 Cynnal a Chadw'r Tiroedd

Gofalu am ardaloedd glaswelltog, gwelyau blodau, meinciau a ffensys a sicrhau y cânt eu cyflwyno'n briodol. Hefyd yn cynnwys cyrtiau storio a chynnal a chadw, peiriannau segur ac ati.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Ardaloedd â draeniad gwael.
- Lleiniau hyll ar gyfer carafanau sy'n gartrefi gwyliau a adawyd yn wag/nas defnyddir.
- Nid yw'r ardaloedd o amgylch carafanau sy'n gartrefi gwyliau a charafanau teithio tymhorol wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent wedi cael eu hesgeuluso.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Ychydig o dir creithiog neu dreuliedig.
- Ychydig o ffensys sydd wedi'u difrodi neu sydd wedi torri.
- Y rhan fwyaf o dir y parc mewn cyflwr da yn gyffredinol o ran gwaith cynnal a chadw.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Y glaswellt wedi ei dorri'n dda ond efallai y bydd glaswellt wedi'i dorri i'w weld.
- Lleiniau carafanau gwag yn daclus ar y cyfan.
- Dim ardaloedd creithiog iawn nac ardaloedd lle mae llawer o ddifrod.
- Cedwir pob llain flodau yn daclus gydag ymylon destlus.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Tystiolaeth glir o gynnal a chadw'r tir yn gyson ac yn effeithiol ym mhob rhan o'r parc.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Ymylon glaswellt wedi eu torri'n ddestlus a'r glaswellt wedi'i gasglu ar ôl ei dorri.
- Cynnal a chadw'r gwaith plannu i safonau ardderchog.
- Tocio llwyni/coed fel y bo'n briodol.
- Torri pennau gwywedig blodau, dim chwyn mewn ardaloedd ffurfiol.

2.7.10 Cynllun y Parc

Asesu lleoliad yr holl gyfleusterau, gan gynnwys gweithgareddau hamdden, y dderbynfa, dwr, gwaredu gwastraff a thoiledau, o'u cymharu â lleoliad y lleiniau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Y bloc toiledau yn bell i ffwrdd oddi wrth y lleiniau teithio neu wersylla.
- Pwyntiau dŵr/gwastraff gryn bellter i ffwrdd oddi wrth y lleiniau teithio neu wersylla neu ar lethr.
- Cyfleusterau y mae'n rhaid eu cyrraedd drwy fynd y tu allan i ffiniau'r parc.
- Peryglon naturiol neu a wnaed â llaw y mae'n rhaid ymdopi â hwy.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Carafanau sy'n gartrefi gwyliau mewn rhesi di-fwllch.
- Mae'r cyfleusterau wedi eu lleoli'n gyfleus ond mewn man gwael e.e. pwyntiau gwaredu cemegol o flaen siop neu gyferbyn ag ardal golchi llestri neu ddŵr yfed.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Defnyddiwyd ardal y parc yn fanteisiol ar y cyfan.
- Mae'r rhan fwyaf o'r prif gyfleusterau yn weddol hygyrch i bob gwestai.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Mae'r holl brif gyfleusterau mewn man canolog.
- Rhoddwyd ystyriaeth amlwg i anghenion cwsmeriaid a'r pellteroedd rhwng y lleiniau/unedau a'r cyfleusterau.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Gellir cyrraedd yr holl gyfleusterau yn hawdd o bob llain.
- Dyluniad y parc yn rhagorol ar y cyfan.

2.7.11 Mannau Parcio a Chyfleusterau Cyrraedd yn Hwyr

Unrhyw gyfleusterau parcio a ddarperir, heblaw'r rhai sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â lleiniau unigol, ac ansawdd a gwaith cynnal a chadw'r cyfleusterau hynny. Er mwyn cael eu hasesu, bydd cyfleusterau 'Cyrraedd yn hwyr' yn cynnwys pwynt dŵr a rhyng-gysylltiad o leiaf.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Cyfleuster sylfaenol iawn ac anffurfiol.
- Llawer o chwyn yn tyfu neu arwyddion o esgeulustod cyffredinol.
- Dim digon o fannau parcio mewn perthynas â'r defnydd arferol a wneir o'r lle.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Cyfleuster sylfaenol gydag arwyneb graeanog neu o naddion cerrig a dim manau wedi eu marcio.
- Ardaloedd parcio heb gilfachau wedi eu marcio neu wedi eu marcio'n lletchwith.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Mae'r meysydd parcio ceir wedi eu cynnal a'u cadw'n dda heb unrhyw chwyn ynddynt.
- Darpariaeth dda ar gyfer pobl sy'n cyrraedd yn hwyr gyda mynediad rhesymol at gyfleusterau sylfaenol.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Safon uchel o gyfleuster a gyflwynir yn dda.
- Arwyneb gwastad, wedi ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Darpariaeth wedi ei marcio'n glir ar gyfer parcio i bobl anabl.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Arwyneb wedi ei darmacio'n llwyr neu wedi ei selio â rhywbeth tebyg i darmac, neu arwynebau graeanog gwastad wedi'u rheoli'n dda ag ymylon pendant.
- Y cyfan mewn cyflwr ardderchog.
- Cilfachau wedi eu marcio i sicrhau parcio gwastad. Gallai hyn fod drwy gyfrwng potiau planhigion, cerrig â marciau neu arwydd clir arall i ddynodi lle.

2.8 Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau a Charafanau Teithio Tymhorol*

*Llain "dymhorol" yw un a osodir am bris sefydlog i berchennog carafán deithio unigol at ei ddefnydd ef yn unig ar gyfer tymor cyfan.

NODER Cyfunir yr adran hon o'r canllawiau i fod yn berthnasol, fel y bo'n briodol, ar gyfer asesiadau penodol a wneir mewn perthynas â'r canlynol:

- Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau a Charafanau Tymhorol (o dan berchnogaeth breifat)
- Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau ar Osod (Agweddau allanol)
- Lleiniau Teithio, Cartrefi Modur a Gwersylla

Ansawdd a chyflwr yr holl agweddau allanol ar yr unedau gan gynnwys adeiladwaith, drysau, ffenestri, grisiau mynediad, toeau, gwteri a phibellau glaw.

Talu sylw arbennig i gyflwr gwaith paent allanol, balconïau a chyfleusterau storio. Mae hyn yn cynnwys unedau teithio a osodir ar lain ar sail dymhorol (cyf agwedd 2.8.1 yn unig).

2.8.1 Y Tu Allan

Gosodiadau golau allanol a darpariaeth o ran goleuadau yn y parc, gan gynnwys ffyrdd, llwybrau, rampiau, grisiau a'r tu allan i adeiladau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Y tu allan i bob carafán yn dangos ôl traul, wedi mynd yn hen neu wedi ei esgeuluso.
- Llawer o gen neu fwsogl yn tyfu ar y rhan fwyaf o'r unedau/pob un o'r unedau, gan wneud iddynt ymddangos fel pe na bai neb wedi gwneud unrhyw waith cynnal a chadw arnynt ers amser maith.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Rhai unedau sy'n amlwg yn hyn ond wedi'u cynnal a'u cadw i safon eithaf da.
- Fframiau-A wedi rhydu i ryw raddau.
- Cen neu fwsogl yn tyfu'n drwchus ar rai unedau.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Dalennau o alwminiwm mewn cyflwr da.
- Efallai mai dim ond gwydr sengl a geir.
- Mae'r rhan fwyaf o'r unedau yn rhoi'r argraff eu bod yn lân ac yn daclus.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Polycarbonad neu blastig o bosibl, i gyd mewn cyflwr da iawn.
- To ar oleddf, gwydr dwbl a phibellau glaw.
- Mae'r holl unedau yn daclus, yn lân ac yn cael gofal.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Gall fod wyneb allanol wedi ei wneud o bren (go iawn) ac mewn cyflwr ardderchog.

- Wedi eu cuddio'n llwyr gan ddefnyddio deunydd o safon uchel i guddio pibellau diolwg.
- Mae'r holl unedau ar y safle yn cael eu cynnal a'u cadw i safon ardderchog o leiaf.

2.8.2 Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt

Asesiad o'r ymdrechion a wneir i sicrhau preifatrwydd a lle rhwng y lleiniau. Defnyddio dull cuddio yn effeithiol a lleoli'r unedau mewn ffordd greadigol yn hytrach na'u gosod mewn rhesi difwlch. Mae hyn yn cynnwys unedau teithio a osodir ar lain ar sail dymhorol (cyf agwedd 2.8.2 yn unig).

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Dim llawer o le rhwng yr unedau, ond yn cydymffurfio â'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith.
- Rhesi unffurf uniongyrchol.
- Dim ymdrech i greu golygfeydd na sicrhau preifatrwydd.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Y lle rhwng yr unedau yn cydymffurfio â'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith ac yn rhagori ychydig arno.
- Mwy o le rhwng yr unedau ac unedau wedi'u lleoli'n well mewn rhai ardaloedd o'r parc.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Rhesi wedi eu gosod bob hyn a hyn er bod y rhan fwyaf ohonynt â 6 medr rhyngddynt.
- Wedi eu gosod mewn rhesi er mwyn sicrhau'r golygfeydd gorau i'r ymwelwyr sy'n aros ynddynt.
- Fel uchod (2) ond wyneb wedd agored ym mhen blaen y garafán e.e. pob un wedi ei gosod ar ymylon y safle yn edrych dros ardal laswelltog ganolog/hamdden helaeth.
- Cysylltiadau trydan mewn lleoliadau anghyfleus i'r lleiniau.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Rhesi wedi eu gosod bob hyn a hyn.
- Llawer o'r lleiniau gyda digon o le rhyngddynt sy'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith.
- Cysylltiadau trydan mewn lleoliadau cyfleus i'r lleiniau fel nad oes angen ceblau hir.
- To ar oleddf, gwydr dwbl a phibellau glaw.
- Mae'r holl unedau yn daclus, yn lân ac yn cael gofal.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Pob llain o faint da.

- Llawer o'r lleiniau wedi eu gosod fel y gall y gwesteion fwynhau'r golygfeydd neu'r preifatrwydd gymaint â phosibl.
- Pob llain yn mwynhau'r olygfa/awyrgylch gorau posibl.

2.8.3 Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw

Ansawdd a chyflwr gwaelod y llain, y tir uniongyrchol o'i hamgylch, y man parcio gyferbyn â'r uned, ardal y patio. Mae hyn yn cynnwys unedau teithio a osodir ar lain ar sail dymhorol (cyf agwedd 2.8.3 yn unig).

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Draeniad gwael.
- Gwaelodion concrit wedi torri neu wedi eu difrodi.
- Palmentydd anwastad a llawer ohonynt wedi torri.
- Pridd moel a/neu dir anwastad.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Lleiniau yn llawn chwyn a thyfiant.
- Lleiniau o safon amrywiol ond mewn cyflwr eithaf da ar y cyfan.
- Dim arwydd o ymdrechion i adfer y tir rhwng cyfnodau o ddefnydd, e.e. pridd moel mewn mannau ar ôl i leiniau gael eu defnyddio am gyfnod hwy.
- Lleiniau sylfaenol i Gartrefi Gwyliau mewn Carafán â chwyn yn tyfu o amgylch ac o dan garafanau.
- Darpariaeth parcio gyfyngedig neu letchwith.
- Mae arwyneb y llwybr neu'r ardal barcio yn debygol o fynd yn lleidiog mewn tywydd garw.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Y llawr caled mewn cyflwr da iawn.
- Lleiniau glaswellt wedi'u cynnal a'u cadw'n dda gydag ymdrech amlwg i adfer tir rhwng cyfnodau o ddefnydd.
- Lleiniau wedi'u rhifo.
- Lleiniau a'u hymylon wedi'u diffinio i ryw raddau.
- Dim ond ychydig o chwyn yn tyfu.
- Llwybrau wedi eu gosod yn dda.
- Cyfleusterau parcio wedi'u nodi'n glir ac ar arwyneb da ar y cyfan, e.e. graean neu gymysgedd o laswellt/pafin.
- Ochrau isaf y Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau neu'r carafanau teithio tymhorol yn edrych yn daclus ac yn lân.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Y gwaelodion neu'r lloriau caled mewn cyflwr da iawn.
- Pob llain wedi ei diffinio'n glir/ag ymylon clir ac wedi ei rhifo.
- Arwyneb llain da iawn.
- Gall ychydig o chwyn sy'n tyfu dynnu oddi ar y nodweddion da.
- Cyfleuster parcio cyfagos ar arwynebau caled.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Y lle rhwng y lleiniau teithio unigol wedi ei nodi'n glir gyda thirlunio naturiol i ddiffinio pob llain.
- Pob llain wedi ei chynnal i safonau ardderchog.
- Lloriau caled heb chwyn ac yn wastad.
- Darpariaeth parcio yn gyfagos, â tharmac neu haen wedi'i phalmantu'n llwyr, gyda goleuadau bolard o bosibl.

2.8.4 Cysylltiadau â'r Lleiniau a Chysylltiadau â Gwasanaethau

Ansawdd a chyflwr yr holl gysylltiadau â gwasanaethau gan gynnwys pŵer, dŵr, carthffosiaeth a draeniau. Mae hefyd yn cynnwys gorchuddion sy'n gysylltiedig â chysylltiadau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys pob uned deithio a osodir ar lain ar sail dymhorol (cyf agwedd 2.8.4 yn unig).

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Poteli nwy sydd yn y golwg.
- Cysylltiadau trydanol neu bibellau hyll.
- Darnau hir o bibellau.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Darnau hir o bibellau draenio neu wifrau cysylltu trydanol.
- Yn daclus ar y cyfan ond fawr ddim ymdrech i guddio gwasanaethau.
- Pwyntiau dŵr y lleiniau yn hen.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Gwnaed ymdrech i guddio silindrau nwy lle bo modd.
- Darnau taclus, byr o bibellau ar y cyfan.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Dim dulliau cuddio sefydlog o reidrwydd ond gallai gynnwys y defnydd o blanhigion neu ddulliau eraill o guddio'r cysylltiadau.
- Darparwyd y gwasanaethau yn y fath fodd fel eu bod mor ddisylw â phosibl.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Mae'r holl gysylltiadau gwasanaethau â'r holl unedau wedi eu gwneud, eu cynnal a'u cadw a'u cuddio i safon ardderchog.

2.9 Carafanau sy'n Gartrefi Gwyliau ar Osod – Agweddau Allanol

2.9.1 Y Tu Allan

(Gweler 2.8.1, tudalen 29)

2.9.2 Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt

(Gweler 2.8.2, tudalen 30)

2.9.3 Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw

(Gweler 2.8.3, tudalen 30)

2.9.4 Cysylltiadau â'r Lleiniau a Chysylltiadau â Gwasanaethau

(Gweler 2.8.4, tudalen 31)

2.10 Toiledau a Chyfleusterau Ymolchi

2.10.1 Y Tu Allan/Ffryntiad

(Gweler 2.1.2, tudalen 14)

2.10.2 Addurno

Pob agwedd ar orffeniad y waliau a'r nenfydau yn y cyfleusterau i gyd.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Addurno ymarferol ag ychydig o gydweddu.
- Deunyddiau o safon is ac arwyddion sy'n amlwg yn hen.
- Gwrtio sydd wedi afliwio dros ardal fawr o'r teils.
- Gwaith brics neu flociau concrit heb ei orffen.
- Paent yn teneuo neu'n anghyson mewn manau.
- Ardaloedd amlwg o ewlychu neu baent yn plicio.
- Tystiolaeth bod y gwaith o ansawdd gwael.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Addurno o ansawdd eithaf da, ac mewn cyflwr eithaf da, ond y gwaith addurno heb gael ei wneud yn ddiweddar o reidrwydd.
- Ychydig o ôl traul ac yn dechrau mynd yn hen.
- Efallai fod gorffeniadau arbenigol wedi cael eu defnyddio e.e. estyll wal gwrth-ddŵr yn yr ystafell ymolchi ond eu bod o ansawdd rhad, yn dechrau mynd yn hen neu wedi cael eu gosod yn wael.
- Rhai o'r teils wal wedi cracio neu'n rhydd/teils nenfwd ar goll.
- Rhai ardaloedd cyfyngedig o ewlychu neu baent yn plicio.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Y gwaith addurno wedi ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn ymarferol.
- Y paent ar y waliau a'r nenfydau wedi ei daenu'n dda ac mewn cyflwr da.
- Y paent i gyd mewn cyflwr da a ffres.
- Efallai fod y teils o ansawdd gweddol ond maent i gyd yn gyfan ac mewn cyflwr da.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Efallai ei fod wedi ei addurno yn ddiweddar, ond heb ddefnyddio deunyddiau o'r safon uchaf.
- Efallai ei fod o ansawdd da iawn ond ei fod ychydig yn hen.
- Defnydd priodol o ddeunyddiau arbenigol i ryw raddau yn debygol.
- Y teils i gyd o safon uchel, gyda gwaith growtio glân, ac wedi eu gosod yn dda.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Defnydd helaeth o ddeunyddiau a gorffeniadau o'r safon uchaf yn debygol.
- Gorffeniad proffesiynol mewn perthynas â phob agwedd ar y gwaith addurno.
- Gorffeniad o'r ansawdd gorau mewn perthynas â phob gorchudd wal.
- Defnydd helaeth o estyll wal gwrth-ddŵr o safon uchel.
- Teils, gwaith growtio a seliau wedi eu gosod yn dda ac o safon uchel a'r cyfan mewn cyflwr perffaith.

2.10.3 Lloriau

Lloriau a gorffeniad y lloriau ym mhob un o'r cyfleusterau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Y lloriau mewn cyflwr digonol ar y cyfan.

- Rhywfaint o ôl traul a staeniau i'w gweld ond ddim yn helaeth.
- O ansawdd gweddol o bosibl e.e. finyl tenau.
- Lloriau pren o bosibl mewn cyflwr cadarn a diogel ond â llawer o greithiau â gorffeniad gwael neu heb orffeniad o gwbl.
- Gall fod o goncrit plaen heb ei gaboli ond yn gadarn yn y bôn ac yn gyfan.
- Lloriau teils o ansawdd gweddol â rhai teils wedi cracio (ond ddim yn rhydd nac yn beryglus).

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Lloriau mewn cyflwr da a/neu o ansawdd eithaf da ar y cyfan.
- Gallant fod o ansawdd eithaf a neu dda yn y bôn, ond bellach yn dangos arwyddion eithaf amlwg o ôl traul a rhai marciau.
- Gallant fod o safon ychydig yn is ond mewn cyflwr eithaf da.
- Gall teils hŷn a theils chwarel treuliedig, a lloriau finyl neu bren mewn cyflwr rhesymol gael eu hystyried yn lloriau o'r safon hon fel arfer.
- Gall lloriau teils gynnwys rhai teils wedi cracio (ond nid yn helaeth nac yn rhydd).
- Gall lloriau concrit fod wedi eu caboli neu eu paentio ond maent yn dangos ychydig o ôl traul.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- O safon gyffredinol dda, â rhywfaint o ôl traul efallai ond ddim yn sylweddol.
- Bydd y finyl wedi ei osod yn dda.
- Bydd lloriau pren yn gadarn a chanddynt orffeniad priodol (farnis, seliwr ac ati) heb fawr ddim creithiau na marciau i'w gweld.
- Bydd lloriau finyl o ansawdd da wedi eu gosod yn dda heb unrhyw farciau mawr arnynt nac ôl traul sylweddol.
- Gall y teils fod o ansawdd gweddol heb unrhyw deils wedi cracio nac wedi eu difrodi.
- Bydd lloriau concrit wedi eu paentio'n dda heb fawr ddim ôl traul arnynt.
- Teils chwarel â rhywfaint o'r gwaith growtio wedi cracio neu wedi ei ddifrodi.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Safon y lloriau'n dda iawn.
- Bydd lloriau pren wedi eu gorffen a'u cynnal a'u cadw'n dda heb unrhyw greithiau na difrod sylweddol.
- Bydd lloriau teils (e.e. teils chwarel, seramig, finyl neu linoliwm) o safon uchel, wedi eu gosod yn dda, heb unrhyw ddifrod ac wedi eu growtio'n dda lle bo'n briodol.

- Bydd lloriau finyl gwrthlithro o ansawdd contract mewn cyflwr da iawn o hyd ar y cyfan ond yn dechrau mynd yn hen neu'n dangos ychydig o ôl traul mewn manau.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Lloriau o ansawdd ardderchog ym mhobman.
- Gallai lloriau laminedig, lloriau pren caboledig, lloriau parquet ac ati o ansawdd da iawn fod o safon ardderchog os ydynt o ansawdd cynhenid da iawn ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Bydd lloriau teils (seramig, finyl neu linoliwm) o'r ansawdd gorau a'r safonau gosod gorau a byddant mewn cyflwr perffaith.
- Bydd lloriau finyl gwrthlithro o ansawdd contract wedi eu gosod gan arbenigwyr ac mewn cyflwr perffaith.

2.10.4 Goleuadau

Lefelau cyffredinol o oleuadau ac ansawdd golau ym mhob rhan o'r cyfleusterau. Goleuadau tasg lle bydd eu hangen.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Goleuo ar lefel ymarferol yn unig, ar gyfer defnydd diogel ac ymarferol, ond dim llawer mwy.
- Tiwbiau neu fylbiau fflwroleuol moel.
- Ardaloedd tywyll neu ardaloedd heb ddigon o olau e.e. yng nghiwbiau'r cawodydd.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Digon o olau yn y rhan fwyaf o ardaloedd i'w defnyddio'n gysurus er y bydd rhai ardaloedd yn amlwg yn fwy tywyll.
- Tiwbiau fflworoleuol heb orchudd drostynt, ond digon ohonynt, ac maent wedi eu dosbarthu'n dda i ddarparu system oleuo effeithiol.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Goleuadau fflworoleuol â thryledwr yn dosbarthu golau'n wastad i bobman.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Goleuadau o safon uchel wedi eu dosbarthu'n dda.
- Goleuadau tasg wedi eu darparu mewn rhai ardaloedd e.e. goleuadau eillio.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Goleuadau tasg o safon uchel, effeithiol iawn lle bo hynny'n briodol.

- Goleuadau wedi eu darparu uwchben ciwbicl pob cawod.
- Y goleuadau yn cael eu rheoli â synhwyrdd efallai e.e. PIR.
- Gall gynnwys gosodiadau fflworoleuol aml-diwb cilfachog mewn blychau adlewyrchu neu oleuadau to cilfachog sy'n cynnig lefel ardderchog o olau.

2.10.5 Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru

Darparu agweddau ar wres ac awyru, a'u heffeithlonrwydd, ym mhob un o'r cyfleusterau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Darpariaeth wresogi sylfaenol.
- Gwresogi bar du ar thermostatau gosodiad rhew.
- Awyru sylfaenol.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- System wresogi weddol effeithiol.
- Y gwres yn debygol o gael ei osod ar lefel gefndirol isel.
- Y gwres ond ar gael yn ystod y cyfnod 1 Hydref hyd at 31 Mawrth.
- Rhywfaint o awyru mecanyddol ond gallai fod yn sylfaenol ar gyfer maint yr adeilad.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Gwres digonol ar gael drwy gydol y flwyddyn ond yn dibynnu ar dymheredd allanol cymharol isel.
- Gwresogyddion panel wedi eu gosod ar wal gyda thymheredd gosodedig ac amserydd.
- System awyru effeithiol ar y cyfan.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Pob bloc cyfleuster wedi ei osod gyda system wresogi sy'n gwbl effeithiol drwy gydol y flwyddyn.
- System awyru fecanyddol gwbl effeithiol a thawel sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- System wresogi o safon uchel yn y cyfleuster cyfan yn creu amgylchedd cynnes ar bob adeg o'r flwyddyn.
- Gwres o dan y llawr o bosibl.
- System gwres canolog wlyb, drwy gydol y flwyddyn, wedi ei rheoli gan thermostat.
- Rheiddiaduron o faint priodol ac mewn lleoliad priodol ar gyfer maint yr adeilad.
- Yn ddelfrydol, system echdynnu uwchben ciwbicl pob cawod ac yn ardal y toiled, yn gweithio â synwryddion PIR a synwryddion gwlybanaeth ac a fydd yn gwbl effeithiol.

2.10.6 Darnau Gosod, Gosodiadau ac Offer Ymolchfa (Toiledau a Basnau)

Ansawdd a chyflwr pob toiled a basn a'r holl offer ymolchfa cysylltiedig. Ansawdd a chyflwr yr holl gosodiadau ac ategolion golau a gwres, gan gynnwys drychau, peiriannau sychu gwallt, peiriannau sychu dwylo, cynwysyddion sebon ac ati. Caiff popeth yn y toiledau a'r ciwbiclau golchi eu cynnwys yma, gan gynnwys y parwydydd os ydynt yn gymwys.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Gosodiadau o ansawdd derbyniol, ond mae'n debyg nad ydynt yn cydweddu.
- Hen gosodiadau gyda gorffeniad afloyw i'r porslen, a'r crôm yn diflannu.
- Pwysedd dŵr digonol a system ddraenio foddhaol ar gyfer defnyddio cyfleusterau yn ymarferol.
- Haen arian y drychau wedi dirywio'n sylweddol.
- Gosodiadau gwres a golau, a gosodiadau ategol yn dangos arwyddion eu bod yn hen, a rhwd a/neu ôl traul arnynt.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Gosodiadau o ansawdd eithaf da, ond wedi dyddio neu ag ôl traul arnynt o bosibl.
- Gosodiadau cymysg.
- Sestonau plastig.
- Drychau o ansawdd gwael.
- Tapiau basn â botymau pwysu lle nad yw'r dŵr yn parhau i redeg ar ôl eu gweithredu.
- Ciwbiclau'r cawodydd yn dechrau mynd yn hen ac ôl traul arnynt neu o ansawdd gweddol.
- Gosodiadau golau a gwres o ansawdd da er eu bod yn mynd yn hen ac yn dangos ôl traul.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Cyfarpar cadarn sy'n cydweddu, o ansawdd da ac wedi ei osod yn dda.
- Offer ymolchfa sy'n cyfateb.
- Llif dŵr a phwysedd dŵr da.
- Tapiau basn â botymau pwysu ag oediad amser byr.
- Parwydydd y ciwbiclau i gyd mewn cyflwr da.
- Gosodiadau, er nad ydynt fel newydd, yn dal mewn cyflwr da ar y cyfan.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Gosodiadau o safon gyffredinol uchel gyda dim ond ychydig o ôl traul.
- Yr holl offer ymolchfa mewn cyflwr da iawn/ardderchog, dim craciau, craciau mân na gorffeniadau afloyw.

- Tapiau â botymau pwyso, llif a thymheredd da iawn, oediad amser da.
- Parwydydd y ciwbiclau i gyd mewn cyflwr da iawn.
- Gosodiadau o safon dda iawn ac wedi eu cynnal a’u cadw’n dda.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Basnau ymolchi maint llawn.
- Offer ymolchfa o safon uchel.
- Y drychau i gyd mewn cyflwr perffaith ac o safon uchel.
- Rheolyddion ymatebol sy’n hawdd eu defnyddio.
- Parwydydd y ciwbiclau i gyd mewn cyflwr ardderchog.
- Gosodiadau i gyd o safon uchel iawn ac yn y cyflwr gorau.

2.10.7 Darnau Gosod, Gosodiadau ac Offer Ymolchfa (Cawodydd)

Ansawdd a chyflwr yr holl gosodiadau cawod. Mae popeth yng nghiwbiclau’r cawodydd wedi eu cynnwys yma, silffoedd, seddi, gwaelodion ac ati, gan gynnwys y parwydydd os ydynt yn gymwys.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Llif dŵr sylfaenol ond digonol.
- Dim modd i’r gwestai reoli’r tymheredd.
- Hen gosodiadau/gosodiadau ag ôl traul arnynt, peipiau dŵr cawodydd sydd wedi eu tynnu’n ormodol.
- Gosodiadau rhydyd, gwaith crôm tyllog.
- Llenni cawod wedi breuo, yn hen neu wedi rhwygo.
- Llenni cawod o ansawdd ac effeithiolrwydd gweddol.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Cawodydd a gosodiadau cawodydd o ansawdd sylfaenol ond y cyfan mewn cyflwr da.
- Gosodiadau o safon uchel yn y bôn ond bellach yn edrych yn eithaf hen a thipyn o ôl traul arnynt.
- Ciwbiclau’r cawodydd yn dechrau mynd yn hen ac ôl traul arnynt neu o ansawdd gweddol.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Pennau cawodydd diogel na ellir eu newid mewn cyflwr da.
- Dull rheoli llif â botymau pwyso, llif da ond efallai fod oediad amser eithaf byr.

- Tymheredd cawodydd wedi ei ragosod yn briodol.
- Yr holl gosodiadau mewn cyflwr da.
- Ciwbiclau’r cawodydd i gyd mewn cyflwr da.
- Dim peipiau dŵr cawod sydd wedi eu tynnu’n ormodol na rhai wedi eu difrodi.

Marc 4 (Da iawn) er enghraifft:

- Efallai y bydd modd i’r gwestai reoli’r tymheredd.
- Llif dŵr pwerus sy’n gwbl effeithiol.
- Yr holl reolyddion yn gweithio’n iawn ac yn effeithiol.
- Parwydydd gwrth-ddŵr y ciwbiclau i gyd mewn cyflwr da iawn.
- Llawr/gwaelodion cawodydd gwrthlithro.
- Llenni cawod o safon uchel mewn cyflwr da iawn sy’n gwbl effeithiol.
- Gall fod cawod botwm gwasgu a phen sefydlog o ansawdd da ag oediad amser estynedig.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Parwydydd gwrth-ddŵr y ciwbiclau yn cael eu cynnal a’u cadw i safon ardderchog.
- Yr holl gosodiadau a rheolyddion yn y cawodydd o’r ansawdd gorau ac mewn cyflwr perffaith.
- Cawod o ansawdd da, yn cael ei rheoli â thermostat (yn cael ei rheoli gan y cwsmer a/neu fotwm gwasgu ag oediad amser estynedig).

2.10.8 Gofod, Cysur a Hwylustod

Dyluniad a chynllun y cyfleusterau, lefel y ddarpariaeth yn berthynol i nifer y defnyddwyr.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Cyfleuster y gellir ei ddefnyddio ond y lle yn gyfyng.
- Mae agor y drysau yn peri rhwystr.
- Dim ond ychydig bach o le sydd rhwng y basnau ymolchi.
- Dim ond un tap poeth sydd ar gael, neu nifer cyfyngedig ohonynt.
- Cyfleusterau o faint digonol ond y lle yn gyfyng mewn manau.
- Dim llawer o gyfle am breifatrwydd wrth newid neu sychu.
- Dim arwyneb addas ar gyfer eiddo gwesteion neu le cyfyng ar gyfer yr eiddo hwnnw.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Yn well na derbyniol ond dim llawer o le i symud mewn rhai ardaloedd.

- Wedi ei ddylunio'n dda ar y cyfan ond mynediad ychydig yn lletchwith.
- Arwyneb gwastad wedi ei ddarparu ar gyfer eiddo gwesteion.
- Drychau wedi eu darparu ond wedi eu lleoli mewn man anghyfleus.
- Digon o le ar y cyfan.
- Gall y lle mewn rhai o'r cyfleusterau fod yn eithaf cyfyng ond gall eraill fod yn well.
- Ciwbiclau o faint safonol.
- Ardaloedd newid cyfyngedig.
- Y lle yn gyfyng mewn cyfleusterau pan fydd nifer o westeion yn eu defnyddio.
- Gall y basnau ymolchi fod yn anghyfleus am eu bod yn rhy agos at ei gilydd neu, pan fyddant yn cael eu defnyddio, gallant gyfyngu ar allu'r gwesteion i gerdded drwy'r ystafell.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Cyfleuster o faint da.
- Ciwbiclau cawodydd sylweddol.
- Digon o le i newid.
- Darnau gosod a gosodiadau wedi eu gosod yn dda fel eu bod yn hawdd eu defnyddio.
- Safon gyffredinol dda sy'n debygol, mewn llawer o barciau, o gynrychioli cymysgedd o rai cyfleusterau ardderchog gydag eraill yn fwy cyfyngedig ac o safon 'eithaf da'.
- Digon o le ar gyfer eiddo gwesteion.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Cyfleusterau o faint da ac wedi eu cynllunio'n dda.
- Bydd ciwbiclau'r cawodydd o faint a chynllun sy'n golygu y gellir sicrhau preifatrwydd ar gyfer newid yn y ciwbicl mewn ardal sychu gwbl effeithiol sydd ar wahân i waelod y gawod.
- Dylai basnau ymolchi fod â digon o le rhyngddynt fel eu bod yn hawdd eu defnyddio ac yn gysurus i'w defnyddio ar adegau prysur.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Cyfleusterau helaeth o ddyluniad ardderchog.
- Yn debygol o ddarparu digon o giwbiclau ymolchi preifat â digon o le ynddynt.
- Gwaelodion y cawodydd yn fwy na'r maint safonol.
- Pob ciwbicl cawod yn cynnwys ardal newid sych o faint da sy'n gwbl effeithiol.

2.11 Lleiniau a Chyfleusterau Teithio, Cartrefi Modur a Gwersylla

2.11.1 Cynllun y Lleiniau a'r Gofod Rhyngddynt

(Gweler 2.8.2, tudalen 30)

2.11.2 Ansawdd y Lleiniau a'u Cynnal a'u Cadw

(Gweler 2.8.3, tudalen 30)

2.11.3 Rhyng-gysylltiadau Trydanol

Asesu ansawdd a gwaith cynnal a chadw y rhyng-gysylltiadau a ddarperir a'r modd y cânt eu cyflwyno. Dylai cysylltiadau fod yn rhai masnachol y gellir eu hadnabod yn ôl socedi glas/llwyd. Dylai'r gorchuddion fod yn briodol i'r amgylchedd.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Gorchuddion â rhywfaint o ddifrod arnynt neu wedi cracio.
- Llawer o'r rhyng-gysylltiadau trydanol yn gam.
- Llawer o lwydni/algâu a/neu'r gorchuddion wedi colli eu lliw.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Rhai rhyng-gysylltiadau trydanol yn gam.
- Rhywfaint o gen neu fwsogl yn tyfu a/neu'r gorchuddion wedi colli eu lliw.
- Pwyntiau rhyng-gysylltiadau sy'n llawn chwyn neu'n anniben.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Ansawdd sylfaenol, y cyfan mewn cyflwr da ac wedi eu gosod yn ddiogel.
- Pwyntiau rhyng-gysylltu trydanol wedi eu gorchuddio neu eu gosod yn daclus.
- Dim mwsogl/gwyrddni ar y pyst na'r gorchuddion.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Rhyng-gysylltiadau o ansawdd da iawn. Efallai y bydd rhai yn cynnwys goleuadau cyfannol lle bo'n briodol a lle gellir caniatáu hynny.
- Pob pwynt heb unrhyw chwyn yn tyfu o'i amgylch ac yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Rhyng-gysylltiadau o ansawdd ardderchog, a all gynnwys golau cyfannol ac RCD/torwyr gorlwytho.

- Y gorchuddion a'r cyfleuster rhyng-gysylltu o'r ansawdd gorau yn cael eu defnyddio'n gyson ym mhob rhan o'r parc.
- Pob rhyng-gysylltiad mewn cyflwr perffaith.

2.11.4 Pwyntiau Dŵr a Gwaredu Dŵr Llwyd

Ansawdd a gwaith cynnal a chadw pwyntiau dŵr a chyfleusterau gwaredu dŵr llwyd, gan gynnwys y rhai a leolir ar leiniau unigol a'r modd y cânt eu cyflwyno.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Mae'r rhan fwyaf o'r pwyntiau dŵr yn ymddangos yn anniben ac mae'n amlwg nad yw'r pwynt yn cael i gynnal a'i gadw'n rheolaidd e.e. tapiau'n diferu neu uniadau'n gollwng dŵr.
- Ardaloedd yn llawn chwyn ac yn gorlifo.
- Llwydni, mwsogl neu lysnafedd yn gyffredin.
- Mae'r cyfleuster yn gweithio ac yn ddiogel ond nid yw'n bleserus, yn hawdd nac yn gyfleus i'w ddefnyddio.
- Efallai na fydd draeniau na ffosydd cerrig sefydlog.
- Llif/gwasgedd dŵr gwael.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Cyfleusterau sylfaenol, wedi eu cynnal a'u cadw i safon eithaf da.
- Yn gyffredinol mae pwyntiau dŵr mewn cyflwr eithaf da, ac mae'r tapiau yn hawdd eu defnyddio.
- Rhywfaint o chwyn/mwsogl yn tyfu ond nid yn helaeth.
- Rhwyllau draeniau wedi torri neu ar goll.
- Tystiolaeth o ddraenio aneffeithlon, pwyntiau yn debygol o fynd o dan ddŵr.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Tapiau y gellir eu hagor a'u cau yn hawdd ac sy'n rhoi llif dŵr cyfeiriedig da.
- Tapiau sydd wedi eu gosod neu eu mowntio'n ddiogel ar uchder cyfleus.
- Ceir arwyneb cadarn, golchadwy yn yr ardal o amgylch y cyfleusterau.
- Caiff y cyfleusterau eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan ym mhob rhan o'r parc.

Marc 4 (Da iawn) er enghraifft:

- Caiff y pwyntiau dŵr a'r pwyntiau gwaredu dŵr llwyd ym mhob rhan o'r parc eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn daclus, heb unrhyw chwyn yn tyfu o'u hamgylch.
- Mae rhyw fath o gafn ymylog wedi ei adeiladu i ddal y dŵr yn yr ardal fel y gellir

ei waredu'n gyflym drwy'r gwter neu ffos gerrig effeithiol.

- Gwnaed rhywfaint o ymdrech i wneud yr ardal mor atyniadol â phosibl.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Mae'r pwyntiau dŵr neu'r pwyntiau gwaredu dŵr llwyd i gyd wedi eu harwyddo'n dda ac maent mewn cyflwr perffaith.
- System ddraenio sefydlog gwbl effeithiol sy'n rhan annatod o bob pwynt ynghyd â rhwyllau diogel.
- Peipiau dŵr wedi eu darparu ar dapiau dŵr llwyd.
- Mae'r mowntin neu'r lle caeedig wedi eu hadeiladu'n daclus ac mae'r gorffeniad yn safonol.

2.11.5 Pwyntiau Gwaredu Gwastraff Cemegol

Ansawdd, cyflwr a gwaith cynnal a chadw'r cyfleuster y tu mewn a'r tu allan.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Dim ond draen neu dwll caead sydd ar gael.
- Mae nifer o agweddau wedi'u difrodi.
- Clawr twll caead trwm a lletchwith.
- Ddim yn hygyrch iawn.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Cyfleuster agored, heb olau, yn yr awyr agored.
- Yn gweithio'n iawn ond yn dangos rhywfaint o ôl traul neu ychydig o ddifrod.
- Dim gwaith cynnal a chadw rheolaidd nac effeithiol yn cael ei wneud yn ôl pob tebyg.
- Mae'r cyfleuster fel arall yn eithaf da ond mae'n anodd ei gyrraedd – grisiau uchel ac ati.
- Mae'r cyfleuster fel arall yn eithaf da ond mae'n anodd mynd ato e.e. dim ond drwy fynd drwy doiled y merched/dynion y gellir ei ddefnyddio.
- Tap wedi ei gyflenwi heb beipen ddŵr.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Cyfleuster awyr agored ond rhai elfennau o safon dda iawn.
- Wedi ei gynnal a'i gadw'n dda a phob agwedd yn gwbl weithredol.
- Gallai fod â gorchudd drosto, wedi ei oleuo, ac â fflwsh a pheipen ddŵr, ond mewn cyflwr gweddol ac o ansawdd gweddol.
- Arwyneb llawr cadarn, golchadwy yn y cyfleuster.

- Mae'r cyfleusterau yn hawdd eu cyrraedd ac wedi eu marcio'n dda.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Adeiladwyd y cyfleuster gan ddefnyddio deunyddiau sy'n hawdd eu golchi e.e. porlen, teils, estyll wal gwrth-ddŵr neu fframiau metel.
- O dan orchudd ac wedi ei oleuo'n dda.
- Yn ddelfrydol, lle bo modd, dylai tap â phibell ddŵr fod ar gael. Dylai hyn olygu bod modd golchi'r ardal o'i amgylch.
- Yn ddelfrydol dylid gosod system lifolchi i lanhau'r ardal ar ôl ei defnyddio.
- Mae'r cyfleuster wedi ei godi, gydag ymyl i gadw casét y toiled cemegol yn sad (awgrymir uchder toiled cyffredin).
- Golchfa/basn draenio mewn cyflwr da iawn, heb graciau na holltau, cyflwr perffaith.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Mae'r holl gyfleusterau a ddarperir o ansawdd unffurf, ardderchog ac mewn cyflwr perffaith.
- Mae'r cyfleusterau wedi eu cuddio neu wedi eu lleoli fel na ellir eu gweld.
- Wedi eu lleoli allan o olwg yr ymwelwyr ond ar gael yn hawdd o bob llain deithio yn y parc.
- Mae'r lleoedd caeedig neu'r adeiladau sy'n dal y cyfleuster wedi eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw i'r safonau uchaf.
- Gwnaed ymdrech glir i wneud y cyfleuster mor atyniadol a phleserus i'w ddefnyddio â phosibl.
- Efallai y darperir cyfleuster golchi dwylo (efallai y bydd glanweithydd gel llaw ar gael).

2.11.6 Pwyntiau Gwaredu Gwastraff Cerbydau Modur (MVWDP)

Ansawdd, cyflwr a gwaith cynnal a chadw'r cyfleuster.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Mae mynediad mor gyfyngedig fel mai dim ond cerbydau llai o faint all ddefnyddio'r cyfleuster.
- Dim ond draen neu dwll caead sydd ar gael.
- Mae arwyneb hydraidid o amgylch y pwynt draenio.
- Mae nifer o agweddau wedi eu difrodi, wedi torri neu nid ydynt yn gweithio.
- Clawr twll caead trwm a lletchwith.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Prinder gwaith cynnal a chadw rheolaidd neu effeithiol yn amlwg er bod y cyfleuster yn gweithio'n iawn.
- Mae'r cyfleuster yn dda fel arall ond mae mynediad iddo yn anodd.
- Darperir modd o lanhau'r ardal yn union o gwmpas.
- Darperir arwyneb anhydraidid o faint cwbl effeithiol ond efallai y bydd rhai craciau neu ddifrod yn amlwg.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Wedi ei leoli mewn man lletchwith o bosibl, yn anodd i unedau mwy o faint ei ddefnyddio.
- Wedi ei gynnal a'i gadw i safon dda.
- Clawr twll caead sy'n gweddu'n dda.
- Arwyneb ffordd llyfn o amgylch (tarmac neu goncrit).

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Cyfleuster a gynlluniwyd yn dda y gellir ei gyrraedd yn hwylus ac y gall cartrefi modur o bob maint ei ddefnyddio.
- System ddraenio wedi ei strwythuro'n dda.
- Arwyneb anhydraidid o faint da ac mewn cyflwr da iawn o amgylch y pwynt draenio.
- Mae'r arwyneb yn bantiog er mwyn atal unrhyw ddŵr ffo rhag llifo oddi ar y pwynt draenio.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Mae'r cyfleusterau wedi eu cuddio neu wedi eu lleoli fel na ellir eu gweld.
- Gwnaed ymdrech glir i wneud y cyfleuster mor atyniadol a phleserus i'w ddefnyddio â phosibl.
- Mae'r cyfleuster yn arddangos nodweddion dylunio ychwanegol sy'n ychwanegu at y defnydd diogel, a hwylus i gwsmeriaid.

2.11.7 Cyfleusterau golchi llestri

Darparu ardaloedd 'golchi llestri' ffurfiol o ran ansawdd, pa mor hawdd ydyw i'w defnyddio a'r modd y cânt eu cyflwyno.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol) er enghraifft:

- Nid yw defnydd na diben y cyfleuster wedi ei arwyddo e.e. Sosbenni a Phadelli yn unig' neu rywbeth tebyg.
- Cyfleuster sylfaenol, sinc a chyflenwad dŵr o ansawdd sylfaenol iawn.
- Ni ddarperir dŵr poeth.
- Mae'r cyfleuster yn gweithio a gellir ei ddefnyddio ond nid yw o ansawdd da.

Marc 2 (Eithaf Da) er enghraifft:

- Gall fod yn gyfleuster dan do ond mewn cyflwr gweddol, heb ddull awyru, goleuadau na ffenestri.
- Yn gyffredinol, o ansawdd eithaf da, ond heb unrhyw ddarpariaeth effeithiol na defnyddiol fel byrddau sychu, plygiau sinc, biniau sbwriel ac ati.
- Gall fod yn gyfleuster o ansawdd da yn y bôn, ond mae bellach mewn cyflwr gwaeth oherwydd oedran, traul neu am mai dim ond ychydig o waith cynnal a chadw a wnaed arno.

Marc 3 (Da) er enghraifft:

- Gall fod y tu mewn i gyfleuster amldefnydd fel golchdy.
- Cyfleuster o safon dda, sydd fel arfer yn cynnwys nodweddion fel: cysgodfan dan do wedi ei amgáu'n rhannol, ar agor ar ddwy ochr, sincipiau dur gloyw wedi'u goleuo'n dda, powlenni golchi a/neu blygiau wedi'u darparu, biniau gwastraff wedi'u darparu neu'n gyfagos i'r cyfleuster, estyll wal gwrth-ddŵr neu gefnwrdd â theils, cynllun da iawn sy'n golygu ei fod yn gysurus i'w ddefnyddio, llawr sy'n olchadwy ac yn hawdd i'w gadw'n lân.

Marc 4 (Da lawn) er enghraifft:

- Cyfleuster o safon dda, sydd fel arfer yn cynnwys nodweddion fel: cysgodfan dan do ac wedi ei amgáu (o leiaf ar dair ochr), sincipiau dur gloyw wedi'u goleuo'n dda a gweithfannau priodol, defnydd da o estyll wal gwrth-ddŵr neu deils o safon uchel, dyluniad a chynllun da iawn sy'n golygu ei fod yn hwylus i westeion ac yn hawdd ei ddefnyddio.

Marc 5 (Ardderchog) er enghraifft:

- Cyfleuster o safon ardderchog, sydd fel arfer yn cynnwys nodweddion fel: ymdrech amlwg i wneud y cyfleuster yn atyniadol ac yn hawdd ei ddefnyddio, cyfleuster wedi ei amgáu'n llawn, ardal wedi'i goleuo'n dda gyda goleuadau ardderchog ar gyfer tasgau ym mhob rhan, gall gynnwys sincipiau, byrddau sychu ac arwynebau gwaith dur gloyw, llawr gwrthlithro o ansawdd contract mewn cyflwr ardderchog neu fath tebyg o lawr o ansawdd ardderchog, waliau bloc concrit â phaent glos arnynt mewn cyflwr perffaith, estyll wal gwrth-ddŵr helaeth.

3.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ddilyn a chadw at y Cod Ymddygiad canlynol:

- Rhaid trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu rywbeth tebyg a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio a diogelwch cymwys a rhwymedigaethau statudol eraill cymwys sydd ar waith.
- Rhaid cyrraedd safonau derbynol o ofal a gwasanaeth i westeion, sy'n briodol ar gyfer y math o sefydliad.
- Rhaid i'r busnes gyrraedd safon uchel o lendid, a hynny'n gyson ymhob rhan o'r eiddo.
- Rhaid rhoi disgrifiad cywir o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfryngau/deunydd marchnata print neu ddiigidol arall.
- Sicrhau bod gwesteion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys ymhob proses a gweithdrefn a ddyfynnir, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau eraill. Rhaid hefyd nodi'n glir fanylion taliadau am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol ar adeg archebu.
- Dylai gwesteion gael datganiad polisi clir ar ganslo gwyliau ar adeg archebu h.y. dros y ffôn, drwy e-bost, yn ogystal â'r wybodaeth a roddir mewn print.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu llety, ffioedd mynediad a gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy.
- Rhoi gwybod i westeion ar adeg archebu, ac wedi hynny, am unrhyw newid, os caiff y llety ei gynnig mewn anecs ar wahân neu rywbeth tebyg a dynodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw wahaniaeth o ran lefelau cysur a/neu amwynderau i'r llety yn y sefydliad.
- Ar gais, rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os bydd angen, i westeion.
- Delio â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan westeion yn brydlon a chwrtais.
- Sicrhau bod gweithdrefnau delio â chwynion ar waith ac yr ymchwilir i bob cwyn a ddaw i law yn brydlon ac yn gwrtais, a bod y gwesteion yn cael gwybod y canlyniad.
- Rhoi sylw priodol i ofynion unigol gwesteion ag anabledau, a gwneud darpariaeth addas lle y bo'n gymwys.

4.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan

Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau Croeso Cymru:

- Ddilyn Cod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Caniatáu i gynrychiolydd o Croeso Cymru neu ar ran Croeso Cymru gael mynediad rhesymol i'r busnes, ar gais, er mwyn sicrhau bod gofynion statws "Aseswyd" a'r "Cod Ymddygiad" yn cael eu bodloni'n llawn.
- Darparu datganiad mynediad/canllaw hygyrchedd.
- Rhaid i bob busnes gyflawni ei Rwymedigaethau Statudol.
- Ni all unrhyw fusnes sy'n cynnig llety i breswylwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau nac sy'n gweithredu fel hostel lloches gymryd rhan yn y cynllun.

5.0 Newid Perchenogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, ni all y radd bresennol gael ei throsglwyddo i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i gymryd rhan yng nghynllun gradd sêr Croeso Cymru.

6.0 Arwyddion

Arwyddion, Tystysgrifau a Logos Electronig. Pan na fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn cymryd rhan yng Nghynllun Ansawdd Croeso Cymru sy'n gymwys i'w fath o fusnes mwyach, rhaid cael gwared ar unrhyw arwyddion/ tystysgrifau perthnasol a logos cysylltiedig Croeso Cymru a thestun ar ddeunydd argraffedig ar unwaith. Os na wneir hyn, ni fydd modd i'r sefydliad arddangos na defnyddio ardstiad Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd o gwbl.

7.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

Os na fyddwch yn cytuno â'r radd sêr y mae eich eiddo wedi'i chael, neu os na fyddwch yn cytuno ag unrhyw agwedd ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, cysylltwch cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gael eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0845 0108020 neu anfonwch e-bost i quality.tourism@llyw.cymru a gwnawn geisio helpu.

Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020

Ffacs: 0300 062 2081

E-bost: quality.tourism@llyw.cymru